


# Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru

## Adroddiad Arolwg

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ROBUST

CLLLC WLGA

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

# Arolwg Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru

## Tabl Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** ........ 1
**Cefndir** ........ 5
**Methodoleg** ........ 8
**Yr ymatebwyr** ........ 9
**Byw yng nghefn gwlad Cymru** ........ 11
**Tai a'r Farchnad Lafur** ........ 24
**Mudo a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol** ........ 32
**Ymyriadau Polisi Posibl** ........ 52
**Casgliadau** ........ 59

# Arolwg Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o dros fil o bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, sef arolwg a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein, gyda chyfranogwyr wedi'u recriwtio drwy ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol. Derbyniwyd cyfanswm o 1056 o ymatebion y gellid eu defnyddio. Yn ogystal â'r arolwg, cynhaliwyd saith sesiwn drafod gyda grwpiau o bobl ifanc yng Ngheredigion, Sir Benfro a Phowys, wedi'u trefnu gan dimau gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol.

Dyma **brif ganfyddiadau**'r arolwg:

- mae 75% o bobl ifanc **yn mwynhau byw** yng nghefn gwlad Cymru.
- dim ond 22% o bobl ifanc sy'n cytuno bod y **cyfleoedd cyflogaeth** yn eu hardal leol yn dda.
- mae 61% o bobl ifanc yn poeni am fedru **dod o hyd i swydd addas** yn eu hardal leol.
- mae 59% o bobl ifanc yn poeni am fedru **fforddio prynu tŷ** yn eu hardal leol.
- dim ond 26% o bobl ifanc sy'n cytuno bod **gwasanaethau cyhoeddus** yn eu hardal leol yn diwallu eu hanghenion; nid yw 50% yn credu eu bod.
- dim ond 27% o bobl ifanc sy'n cytuno bod y **cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol** yn eu hardal leol yn dda, mae 56% yn anghytuno.
- byddai'n well gan 27% o bobl ifanc **barhau i fyw yn eu hardal leol** drwy gydol eu hoes, ond mae 50% yn anghytuno.
- dywed 40% o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru y byddai'n **well ganddynt fyw mewn dinas neu dref fwy o faint**, ond mae cyfran debyg yn anghytuno.
- cred 81% o bobl ifanc y bydd angen iddynt **symud** o'u hardal leol **i gael addysg, hyfforddiant neu waith**.
- mae 48% o bobl ifanc yn meddwl y bydd angen iddynt **symud** o'u hardal leol er mwyn **dod o hyd i dŷ addas, fforddiadwy**.
- byddai 57% o bobl ifanc yn hoffi **symud yn ôl i'w hardal leol** yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn symud oddi yno.
- dim ond 18% o bobl ifanc oedd yn rhagweld y byddant **yn parhau i fyw yn eu hardal leol** dros y pum mlynedd nesaf; mae 42% yn disgwyl **symud tu allan i Gymru** yn ystod y cyfnod hwn.

Mae sampl fawr yr arolwg wedi galluogi dadansoddi'r canlyniadau cyfanredol hyn i greu darlun manylach. Gall rhyw, oedran, statws addysg neu gyflogaeth, gallu yn y Gymraeg, ac ymhle yn

union mae pobl ifanc yn byw, oll yn gwneud gwahaniaeth i'w barn am fywyd yng nghefn gwlad Cymru a'u bwriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r **prif ddirnadaethau** sy'n codi yn sgil dadgyfuno'r canlyniadau cyffredinol yn cynnwys y canlynol:

- Mae **menywod ifanc** yn tueddu i fod yn fwy anfodlon na dynion ifanc â'r cyfleoedd cyflogaeth, cymdeithasol a diwylliannol yn eu hardal leol, ac ychydig yn fwy tebygol o ystyried y bydd angen iddynt symud i ffwrdd ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae dynion ifanc yn fwy tueddol na menywod ifanc o fod eisiau byw yn eu hardal leol drwy gydol eu bywyd.
- Mae **siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf** yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol na'r bobl ifanc yn eu cyfanrwydd ynghylch bywyd yn eu hardal wledig, yn enwedig ynghylch gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol, ac maent yn fwy tebygol o fod eisiau parhau i fyw yn eu hardal leol neu ddychwelyd yno petaent yn symud i ffwrdd. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn meddwl y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol i gael gwaith cyflogedig, addysg neu rywle i fyw, gyda thraean ohonynt yn rhagweld y byddant yn symud tu allan i Gymru yn ystod y pum mlynedd nesaf.
- Mae gwahaniaethau amlwg ym marn a disgwyliadau siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n ail iaith, yn enwedig mewn perthynas â chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol a chyfleoedd cyflogaeth, sy'n awgrymu bod hunaniaeth ddiwylliannol a bod yn rhan o gymuned Gymraeg ei hiaith drwy gysylltiadau teuluol yn bwysicach wrth lunio rhagolygon na gallu yn yr iaith.
- Tuedda pobl ifanc **nad ydynt yn siarad Cymraeg** oll i fod yn fwy anfodlon â'r cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol a chyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru. Maent yn llai tebygol o fod eisiau dychwelyd i'w hardal leol pe baent yn symud i ffwrdd.
- Mae barn pobl ifanc hefyd yn amrywio yn ôl **grŵp oedran**, gan esblygu wrth i bobl ifanc fynd yn eu blaenau drwy addysg ac i gyflogaeth. Mae penderfyniadau i aros yng nghefn gwlad Cymru neu adael yn gysylltiedig agos â phenderfyniadau ynghylch addysg uwch. I lawer, mae mynd i brifysgol yn gyfle i gael profiad gwahanol, mwy trefol yn aml, gan gynnwys mewn dinasoedd yn Lloegr. Mae gallu graddedigion i ddychwelyd i ardaloedd eu magwraeth ar ôl astudio wedi'i liwio gan yr argraff sydd ganddynt am gyfleoedd cyflogaeth, gyda llawer o **fyfyrwyr presennol** yn credu y bydd angen iddynt symud tu allan i Gymru i ddod o hyd i swyddi priodol ar lefel graddedigion yn eu maes.
- Tuedda pobl ifanc sydd **mewn gwaith ar hyn o bryd** i fod yn fwy tebygol o fwriadu parhau i fyw yn eu hardal leol, ond mae gan lawer ohonynt bryderon am ddilyniant gyrfa a fforddiadwyedd tai. Mae nifer sylweddol o bobl ifanc sy'n gweithio yng nghefn gwlad Cymru yn credu y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol i ddod o hyd i swyddi neu rywle i fyw, naill ai i leoliadau o fewn cefn gwlad Cymru neu'r tu allan.
- Mae ymatebwyr hŷn, **22 i 25 oed**, fel rheol wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i aros yn eu hardal leol neu i ddychwelyd yno. Tueddant i fod yn fwy cadarnhaol ynghylch bywyd

gwledig gan fod yn fwy sefydlog, ond eto maent yn fwy tebygol i fod yn anfodlon â gwasanaethau cyhoeddus ac yn pryderu am dai. Mae llawer yn dal yn meddwl y bydd angen iddynt symud i gael gwaith cyflogedig neu rywle i fyw.

- Mae **gwahaniaethau daearyddol** yn y farn am wasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol, pryderon ynghylch tai a chyflogaeth, a gobeithion pobl ifanc i symud yn ôl i'r ardal yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn symud i ffwrdd. Mae pryderon am dai fforddiadwy ar eu huchaf yn Sir Benfro (69% o ymatebwyr) ac ar eu hisaf ym Mhowys (49%), tra mai ymatebwyr yn Sir Benfro (68%), Conwy (67%) a Sir Gaerfyrddin (66%) sydd â'r pryderon pennaf ynghylch dod o hyd i swydd yn lleol.
- Pobl ifanc yng Nghonwy sy'n fwyaf tebygol o feddwl y byddant yn parhau i fyw yn eu hardal leol yn ystod y pum mlynedd nesaf (29%), a'r rheiny yng Ngheredigion sydd fwyaf tebygol o feddwl y byddant yn symud (dim ond 14% yn rhagweld y byddant yn aros). Pobl ifanc yng Nghonwy (67%) a Sir Benfro (64%) sy'n fwyaf tebygol o fod eisiau dychwelyd petaent yn symud oddi yno, a phobl ifanc yn Sir Fynwy sydd lleiaf tebygol o fod eisiau dychwelyd (44%).

O ddadansoddi'r arolwg, gellir categoreiddio pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn dri grŵp yn ôl eu gobeithion, eu pryderon a'u disgwyliadau ynghylch mudo:

- **'Arhoswyr tebygol'** – byddai'n well gan y rhain barhau i fyw yn eu hardal leol drwy gydol eu bywyd neu eu bod yn teimlo'n niwtral ynghylch hynny a hefyd nid ydynt yn credu y bydd angen iddynt symud i gael gwaith cyflogedig, addysg neu rywle i fyw. Mae'r rhain yn cynnwys tua un ym mhob deg o bobl ifanc a lenwodd yr arolwg. O'i gymharu â holl ymatebwyr yr arolwg gyda'i gilydd, mae'r grŵp hwn yn anghymesur o ran nifer y dynion sydd ynddo yn ogystal â bod tua dwywaith yn fwy tebygol o fod yn gweithio ar hyn o bryd yn hytrach nag mewn addysg.
- **'Ymadawyr awyddus'** – mae'r rhain eisiau gadael eu hardal leol, o leiaf am gyfnod, gyda dau o bob tri ohonynt yn ffafrio byw mewn tref fawr neu ddinas. Mae tua hanner y bobl ifanc a lenwodd yr arolwg yn y grŵp hwn. Mae myfyrwyr mewn ysgolion, yn y chweched dosbarth neu mewn coleg wedi'u gorgynrychioli yn y grŵp hwn, a siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf wedi'u tangynrychioli. Mae tua thraean y grŵp hwn eisiau gadael eu hardal leol yn barhaol, ond mae'r rhan fwyaf yn barod i symud yn ôl yn ddiweddarach yn eu bywyd, gan gynnwys tua thraean a oedd wedi mynegi dyhead penodol i wneud hynny.
- **'Arhoswyr posibl'** – byddai'n well gan y rhain barhau i fyw yn eu hardal leol, neu eu bod yn niwtral ynghylch aros, ond yn credu y bydd angen iddynt symud i gael cyflogaeth, addysg ac/neu rywle i fyw. Daw mwy na dau o bob pump o'r ymatebwyr i'r categori hwn, gyda siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ymatebwyr sydd mewn gwaith ar hyn o bryd wedi'u gorgynrychioli. Mae rhai o'r grŵp hwn yn rhagweld y byddant yn gallu aros yn eu hardal leol yn y tymor byr, gyda bron i draean yn rhagweld na fyddant yn symud yn ystod y pum mlynedd nesaf, ond mae'r rhan fwyaf o'r farn y byddant yn gadael yn y cyfnod hwn. Byddai bron y cyfan ohonynt yn gobeithio dychwelyd i'w hardal leol yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn symud i ffwrdd.

Mae grŵp mawr yr arhoswyr posibl yn awgrymu bod nifer sylweddol o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru a fyddai'n ymateb i ymyriadau polisi i geisio atal allfudo. Dyma'r **prif wersi** i'w codi o'r astudiaeth:

- Y mentrau sy'n fwyaf tebygol o gael effaith i alluogi'r grŵp o arhoswyr posibl i aros yw mentrau sydd wedi'u hanelu at gynyddu faint o dai fforddiadwy sydd ar gael, gwella lefelau cyflog, ac ehangu'r ystod o swyddi sydd ar gael yng nghefn gwlad Cymru.
- Mae ymdrechion i wella cyfleusterau adloniant a hamdden a gwella cysylltiadau trafnidiaeth â threfi a dinasoedd yn debygol o wneud gwahaniaeth i'r tebygolrwydd o bobl ifanc yn gyffredinol yn dewis aros mewn ardaloedd gwledig.
- Gallai arallgyfeirio'r economi yng nghefn gwlad Cymru a thargedu strategol ar sectorau newydd a rhai sy'n tyfu megis technoleg werdd, biotechnoleg a gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg helpu i ehangu cyfleoedd cyflogaeth a chynyddu tâl. Fodd bynnag, mae her yn gysylltiedig ag alinio'r blaenoriaethau hyn ar gyfer datblygu economaidd â dyheadau gyrfa pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru. Mae angen hyrwyddo'r sectorau hyn mewn ysgolion a cholegau i gyd-fynd â hybu buddsoddiad strategol yn y meysydd hyn er mwyn cynyddu diddordeb a darparu hyfforddiant priodol yn lleol.
- Gallai strategaethau i gefnogi'r diwydiannau creadigol a chryfhau cyfleoedd hyfforddi mewn gofal iechyd hefyd helpu i gadw pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, felly hefyd cymorth wedi'i dargedu i helpu newydd-ddyfodiaid i ffermio.
- Nid yw'r ehangu ar yr arfer i weithio o bell a gweithio gartref ar ôl y pandemig ynddo'i hun yn debygol o arwain at ragor o bobl ifanc yn dewis aros mewn ardaloedd gwledig, gyda llai nag un ym mhob deg o ymatebwyr yr arolwg yn dewis gweithio o gartref fel eu hamgylchedd gweithio o'u dewis.
- Mae cryn ddiddordeb mewn hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, yn enwedig dynion ifanc, a gallai hyn greu cyfleoedd i alluogi pobl ifanc i fyw a gweithio mewn ardaloedd gwledig o gael eu meithrin drwy fentrau strategol.

## Cefndir

Mae pobl ifanc yn mudo allan o gefn gwlad Cymru yn duedd hirsefydlog sydd wedi bod yn ffocws pryder o'r newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y cyfranogwyr gweithdai, arolygon a chyfarfodydd a gyfrannodd at *Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig* a luniwyd gan Brifysgol Aberystwyth a Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o brosiect ROBUST, yn aml wedi sôn am allfudo ieuenctid i fod yn her allweddol sy'n wynebu'r wlad.[1] Câi allfudo ieuenctid yn fynych ei briodoli i gyfleoedd cyflogaeth prin a phwysau o ran argaeledd a fforddiadwyedd tai ac yn gysylltiedig â phryderon am ddemograffig sy'n heneiddio yn y cymunedau gwledig, ynghyd â chynaliadwyedd gwasanaethau gwledig gan gynnwys ysgolion pentref, hunaniaethau cymunedol yn gwanhau, a'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd beunyddiol.

Cefnogir y dybiaeth fod pobl ifanc yn gadael y Gymru wledig gan dystiolaeth ystadegol gymwys, er y caiff y darlun ei ystumio gan boblogaethau'r myfyrwyr yn Aberystwyth, Bangor a Chaerfyrddin. Nid yw'r ffigurau ar batrymau mudo yn ôl oedran ar gael eto ar gyfer Cyfrifiad 2021, ond yn y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2011 roedd llif net o bobl ifanc wedi symud allan o bob un o'r naw awdurdod lleol sy'n bennaf wledig yng Nghymru, heblaw am Geredigion a Gwynedd (Tabl 1).[2] Roedd myfyrwyr yn symud i'r brifysgol wedi creu mewnlif net yng Ngheredigion a Gwynedd, ond os yw trefi prifysgol Aberystwyth, Bangor a Llanbedr Pont Steffan yn cael eu gadael allan, mae gweddill ardaloedd y siroedd hyn hefyd fel petaent wedi cael all-lif net o bobl ifanc. Mae'r gwahaniaethau fodd bynnag yn eithaf bach, gan amrywio o golled net o 123 o bobl ifanc yn Ynys Môn i golled net o 678 o bobl ifanc ym Mhowys.[3] Yn yr un modd, roedd cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed a symudodd i ardal awdurdod lleol arall yn y flwyddyn 2010 i 2011 wedi amrywio o 9.0% yn Sir Gaerfyrddin i 15.3% yn Sir Fynwy.

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn mwy diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yn y naw sir sy'n wledig yn bennaf wedi gostwng tua 10% (neu ychydig dros 10,000 o unigolion) rhwng 2010 a 2020, er bod cyfanswm poblogaeth y Gymru wledig wedi cynyddu 2.4% yn ystod yr un cyfnod.[4] Fodd bynnag, mae tueddiadau demograffig hirdymor yn sail i hyn yn ogystal â mudo, gyda nifer y bobl ifanc 16 i 24 oed hefyd yn gostwng yng Nghymru gyfan a'r DU gyfan dros yr un cyfnod. Eto, mae'r gostyngiad yng nghefn gwlad Cymru wedi bod yn fwy llym ac wedi dwysáu'r proffil oedran a oedd eisoes yn anwastad mewn llawer o gymunedau gwledig. Mae cyfran y boblogaeth 18 a 29 oed yn y rhan fwyaf o wardiau cefn gwlad Cymru yn llai na chyfartaledd Cymru, â'r gwahaniaeth yn arbennig o ddwys mewn rhannau o dde Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Fynwy (Ffigur 1).

[1] *Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig: Yr Adroddiad Dystiolaeth*, Prifysgol Aberystwyth a CLlLC, 2021

[2] Y naw sir sy'n wledig yn bennaf yw Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Fynwy, Sir Benfro, a Phowys


[3] Cyfrifiad 2011: Mudo yn ôl Oed a Rhyw, gan NOMIS.

[4] Amcangyfrifon Poblogaeth Ganol y Flwyddyn, gan StatsCymru

| | Grŵp oedran 16-24 | | | All-lif fel % o gyfanswm y grŵp oedran 16-24 oed |
|---|---|---|---|---|
| | Mewnlif | All-lif | Net | |
| Sir Gaerfyrddin | 1582 | 1758 | -176 | 9.0% |
| Ceredigion | 4209 | 1947 | +2262 | 14.9% |
| Conwy | 867 | 1222 | -355 | 11.2% |
| Sir Ddinbych | 847 | 1146 | -299 | 11.4% |
| Gwynedd | 3112 | 2079 | +1033 | 12.8% |
| Ynys Môn | 579 | 702 | -123 | 10.1% |
| Sir Fynwy | 717 | 1361 | -644 | 15.3% |
| Sir Benfro | 821 | 1285 | -464 | 10.1% |
| Powys | 984 | 1662 | -678 | 13.1% |

Tabl 1: Mudo i mewn ac allan o siroedd gwledig Cymru gan bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed rhwng Ebrill 2010 ac Ebrill 2011.

Ffynhonnell: NOMIS (data Cyfrifiad 2011)




Ffigur 1: Y boblogaeth 18 i 29 oed mewn wardiau gwledig yng Nghymru, 2019 (Siroedd gwledig ynghyd â 'wardiau gwledig' sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Ffynhonnell: StatsCymru)

Roedd ymchwil gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2013 wedi canolbwyntio ar astudiaethau achos mewn chwe chymuned wledig, a dangosodd fod cymysgedd o ystyriaethau yn llywio dyheadau a phenderfyniadau mudo pobl ifanc. Ymysg yr ystyriaethau hyn roedd mynediad at gyflogaeth ac addysg, pryderon cynyddol am fforddiadwyedd tai, a materion ansawdd bywyd, megis cyfleoedd

hamdden ac adloniant. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn gadarnhaol ar y cyfan am ddarpariaeth gwasanaethau lleol, ac eithrio trafnidiaeth gyhoeddus yn benodol. Ar yr un pryd, mynegodd llawer o bobl ifanc hefyd ymlyniad cryf i gymuned eu cartref gan nodi y byddent yn gobeithio dychwelyd yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn symud oddi yno. Daeth adroddiad yr Arsyllfa i'r casgliad y bydd, "cymunedau gwledig ledled Cymru yn parhau i wynebu colled net o bobl ifanc i ganolfannau poblogaeth mwy o faint yn y dyfodol rhagweladwy. Cadarnhaodd sylwadau gan y bobl ifanc a'r teuluoedd ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau trafod y gellir priodoli llawer o'r all-lif hwn i gyfuniad o ffactorau addysgol, cyflogaeth, ariannol a chymdeithasol. Fodd bynnag, mynegodd llawer o'r un unigolion hyn awydd hefyd i ddychwelyd i'w cymunedau cartref ar ryw adeg yn y dyfodol, pe gellid gwneud y cymunedau hyn yn fwy deniadol i bobl ifanc".[5]

Roedd ymchwil diweddarach gan Ffion Storer Jones ar gyfer Prosiect Ieuenctid Gwledig yn 2020 wedi atgyfnerthu ac ehangu canfyddiadau astudiaeth yr Arsyllfa, gan ddangos ymdeimlad cryf o berthyn ymysg pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru a phryderon am bwysau a allai olygu bod angen symud o gymunedau eu cartref. Gan ddefnyddio ymatebion arolwg a lenwyd gan 263 o bobl ifanc rhwng 16 a 28 oed a grwpiau ffocws gyda 20 o gyfranogwyr eraill, canfu'r adroddiad er bod 89% o ymatebwyr yn dal i fyw yn y man lle'u magwyd (gan adlewyrchu efallai fod y mwyafrif yn 16-18 oed), roedd 60% wedi ystyried symud i dref neu ddinas lle roedd cyfleoedd cyflogaeth yn well, a bod 68% yn cytuno ei bod yn anodd dod o hyd i waith yn agos i ble roeddent yn byw. At ei gilydd, roedd 61% yn optimistaidd am y dyfodol, ond dim ond 11% oedd yn credu bod ganddynt lais yn y ffordd y gwnaed penderfyniadau am Gymru wledig.[6]

Mae astudiaethau'r Arsyllfa a Storer Jones ill dau yn rhoi dealltwriaeth am brofiadau pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru a sut mae'r rhain yn llywio dynameg yn ymwneud â mudo. Ac eto, roedd y ddau yn seiliedig ar niferoedd gweddol fach o gyfranogwyr ac felly'n gyfyngedig o ran casglu amrywiaeth lawn profiadau, barn a chynlluniau pobl ifanc ar draws gwahanol siroedd y Gymru wledig ac ar draws cyd-destun rhyw, oedran a diwylliannol. O'r herwydd, rhannol oedd y sylfaen dystiolaeth a oedd ar gael wrth fynd i'r afael â phryderon am allfudo ieuenctid yn *Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig*. Ymhellach, roedd tîm ymchwil ROBUST a weithiai ar y *Weledigaeth Wledig* yn ymwybodol na chafodd pobl ifanc eu hunain lawer o fewnbwn uniongyrchol i'r *Weledigaeth* (nid oedd yr ymgais i drefnu gweithdy ar-lein gyda phobl ifanc wedi recriwtio digon o gyfranogwyr i fod yn hyfyw).

Cynhaliwyd yr arolwg a adroddir yma felly i fod yn ddilyniant i'r *Weledigaeth Wledig* ym mhrosiect ROBUST er mwyn casglu sylfaen dystiolaeth fwy helaeth i lywio'r gwaith o weithredu a datblygu'r *Weledigaeth Wledig* gan awdurdodau lleol gwledig a chyrff eraill, ac yn arbennig i archwilio effaith bosibl ymyriadau polisi a gynigid yn natganiad *Gweledigaeth Wledig*.

[5] Profiadau a Dyheadau Pobl ifanc mewn Ardaloedd Gwledig, Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.
[6] Adroddiad Ymchwil Ieuenctid Gwledig Cymru, Ffion Storer Jones, 2020.

# Methodoleg

Cynhaliwyd yr arolwg drwy holiadur ar-lein a oedd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau amlddewis caeedig, cwestiynau ar raddfa Likert, ac atebion testun rhydd. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a gallai ymatebwyr ddewis llenwi'r arolwg yn y naill iaith neu'r llall. Anelwyd yr arolwg at bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed, yn byw yng nghefn gwlad Cymru, gyda tharged o 1,000 o ymatebion. Agorodd yr arolwg ar $12^{fed}$ Gorffennaf 2021 a chau ar $30^{ain}$ Medi 2021.

Comisiynwyd Four Cymru i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg drwy ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol fel y prif fecanwaith ar gyfer recriwtio cyfranogwyr, gyda deunyddiau ymgyrchu yn cynnwys dolen uniongyrchol i'r holiadur ar-lein. Hyrwyddwyd yr holiadur hefyd drwy dimau gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, wedi'i gefnogi gan y CLlLC. Mae'r ymatebion i'r holiadur yn ddienw, ond ar ôl cwblhau'r holiadur câi'r ymatebwyr yr opsiwn i glicio ar ddolen i wefan hollol ar wahân y gallent fynd iddi i roi eu henw mewn raffl. Dewisodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr roi eu henwau yn y raffl. Gweinyddwyd y raffl gan Four Cymru ac ni ddatgelwyd manylion yr ymgeiswyr ac enillwyr y gwobrau i dîm ymchwil yr arolwg.

Gan fod ymatebwyr yr arolwg eu hunain wedi dewis cymryd rhan, lliniarwyd y potensial ar gyfer rhagfarn drwy fonitro ymatebion yn wythnosol yn ôl rhyw, oedran a dosbarthiad daearyddol, a gwnaed addasiadau i dargedu'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan. Mae manylion proffil terfynol yr ymatebwyr yn yr adran nesaf.

Ochr yn ochr â'r arolwg, cafodd templed ar gyfer trafodaeth grŵp ei ddosbarthu i weithwyr ieuenctid drwy dimau gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol i'w ddefnyddio gyda chlybiau ieuenctid neu grwpiau tebyg. Trefnwyd y templed ar sail tri chwestiwn – 'Beth sy'n bwysig i chi ynghylch byw yn eich ardal leol?', 'Pa heriau neu broblemau sy'n eich wynebu wrth fyw yn eich ardal leol?', a 'Pa fath o bethau a allai eich helpu i aros i fyw yn yr ardal leol neu i ddychwelyd yno?'. Cafwyd crynodebau o drafodaethau gyda saith grŵp a oedd yn cynnwys Prosiect Ieuenctid Aberhonddu, Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro, Panel Ieuenctid Dewis yng Ngheredigion, ysgolion yn Aberaeron, Aberystwyth a Llandysul, a thrafodaeth ar-lein gyda bechgyn 14 oed yng Ngheredigion. Defnyddiwyd y rhain i fod yn ddata ansoddol yn sail i'r gwaith o ddehongli a thrafod canlyniadau meintiol yr arolwg.

## Yr ymatebwyr


Derbyniwyd cyfanswm o 1056 o ymatebion yr arolwg y gellid eu defnyddio, er nad atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn. O'r rhain, roedd 971 holiadur wedi'u llenwi yn Saesneg ac 85 yn Gymraeg. Roedd dau o bob pump o'r ymatebwyr yn fenywod, o'i gymharu ag ychydig dros draean a oedd yn ddynion, a 4% wedi nodi eu bod yn anneuaidd (Ffigur 2). Mae'r dosbarthiad rhyw hwn yn debyg i'r hyn a gafwyd gan Storer Jones, ond mae'n tan-gynrychioli dynion yn sylweddol, gan eu bod yn 53% o'r cohort 16-24 oed a oedd yn byw yng nghefn gwlad Cymru yn 2020.[7]

Roedd yr ymatebwyr yn amrywio o ran oedran o 14 i 25, gydag oedran cymedrig o 18.7. Mae ymatebwyr 16 a 17 wedi'u gorgynrychioli o'i gymharu â chyfanswm y boblogaeth, gan roi 28% o ymatebion yr arolwg, tra bod ymatebwyr dros 21 oed yn cael eu tangynrychioli ar 30% o'r ymatebion (Ffigur 3). Adlewyrchir y dosbarthiad oedran hefyd yn statws addysgol neu gyflogaeth presennol yr ymatebwyr, gyda 42% yn yr ysgol, chweched dosbarth neu'r coleg, 25% yn y brifysgol, a 15% yn gweithio'n llawn-amser.


Roedd bron y cyfan o'r ymatebwyr (96%) yn byw yn un o'r naw ardal awdurdod lleol sy'n wledig yn bennaf, gyda'r gweddill yn byw yn byw mewn ardaloedd gwledig mewn rhannau eraill o Gymru, gan gynnwys yn Sir y Fflint, Castell-nedd Port Talbot, a Wrecsam. Daeth nifer uchaf yr ymatebion i'r arolwg o Gwynedd (184 ymateb), Powys (181), Sir Gaerfyrddin (119), Ceredigion (103) a Sir Benfro (102), gweler Ffigur 4. O'i gymharu â chyfanswm dosbarthiad y garfan 16-24 oed yng nghefn gwlad Cymru, mae Gwynedd, Powys, ac Ynys Môn wedi'u gorgynrychioli yn ymatebion yr arolwg, ac mae Sir Gaerfyrddin, Conwy a Sir Ddinbych wedi'u tangynrychioli. Nododd ychydig o dan chwarter yr ymatebwyr eu bod yn byw oddi cartref am ran o'r flwyddyn, yn bennaf fel myfyrwyr mewn prifysgol. Disgrifiodd dau o bob pump o'r ymatebwyr eu preswylfa gartref yn bentref, ychydig yn llai ohonynt wedi nodi tref, a thua un o bob pump wedi dweud eu bod yn byw mewn cefn gwlad agored (Ffigur 5).

Disgrifiai bron i chwarter yr ymatebwyr eu hunain yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, gyda 21% arall yn dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg ail iaith rhugl. Dim ond 14% o ymatebwyr a nododd nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl (Ffigur 6). Ni ellir cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol ag ystadegau eraill ar allu yn y Gymraeg a'r defnydd ohoni ond awgryma fod siaradwyr Cymraeg wedi'u gorgynrychioli yn y sampl o'i gymharu â chyfanswm y garfan oedran 16-24 yng nghefn gwlad Cymru.


[7] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran, StatsCymru, 2020.





Ffigur 2: Rhyw ymatebwyr yr arolwg





Ffigur 4: Ymatebion yr arolwg yn ôl ardal awdurdod lleol




Ffigur 3: Dosbarthiad oedran ymatebwyr yr arolwg





Ffigur 5: Lleoliad cartref yr ymatebwyr




Ffigur 6: Rhuglder yn y Gymraeg yr ymatebwyr

## Byw yng nghefn gwlad Cymru

Datgela'r arolwg deimladau cymysg llawer o bobl ifanc ynghylch byw yng nghefn gwlad Cymru. Ar y cyfan, dengys pobl ifanc ymlyniad cryf â'r Gymru wledig, a thros 75% o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru, gyda dim ond 11.5% yn anghytuno. Ac eto, pan ofynnwyd am fodlonrwydd ag agweddau penodol ar fywyd yn eu hardal leol, gan gynnwys safon gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol, a mynediad i gyflogaeth a thai, cofnodwyd llawer mwy o anfodlonrwydd. Dim ond 26% o ymatebwyr a oedd yn cytuno bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal leol yn diwallu eu hanghenion, dim ond 22% oedd yn cytuno bod cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol da iddynt yn eu hardal, a dim ond 21% oedd yn cytuno bod y cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal leol yn dda (Ffigur 7). Anghytunai mwyafrif yr ymatebwyr â phob un o'r datganiadau hyn. Yn yr un modd, roedd bron i 60% o ymatebwyr yn pryderu ynghylch gallu fforddio prynu tŷ yn eu hardal leol.





Ffigur 7: Ymatebion i ddatganiadau ar fodlonrwydd â bywyd yng nghefn gwlad Cymru


Mae'r mwynhad cyffredinol o fyw yng nghefn gwlad Cymru yn weddol gyson ar draws y rhywiau, grwpiau oedran a'r siroedd, er bod amrywiadau sylfaenol nodedig. Pobl ifanc yn Sir Ddinbych sy'n fwyaf tebygol o gytuno eu bod yn mwynhau byw mewn ardal wledig (84%), tra mai'r rheiny yn Sir Fynwy sy'n fwyaf tebygol o anghytuno (18.5%) – wedi'i ddilyn yn agos gan Sir Gaerfyrddin (16%) a Cheredigion (14.6%). Mae'r rheiny sy'n byw mewn cefn gwlad agored yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mwynhau bywyd yng nghefn gwlad Cymru na'r rhai sy'n byw mewn pentrefi (83% i 72%), ac mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn sylweddol fwy tebygol o fwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru (87%) nag ymatebwyr nad ydynt yn siarad unrhyw Gymraeg (62%).

Roedd ymatebwyr 22 oed a throsodd yn yr un modd yn fwy tebygol na charfanau o oedran iau i fwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru (gyda 82% yn cytuno), gan adlewyrchu efallai eu bod hefyd yn fwy tebygol o fod wedi symud oddi yno ac wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i ddychwelyd (Ffigur 8). Eto, mae'r bwlch rhwng mwynhad cyffredinol o fywyd gwledig ac anfodlonrwydd â gwasanaethau penodol a chyfleoedd hefyd yn fwyaf amlwg ymysg y grŵp hwn, eto o bosibl yn adlewyrchu profiadau o fod wedi byw mewn mannau eraill, ond hefyd o bosibl oherwydd diddordeb mwy uniongyrchol mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai. Er enghraifft, roedd 59% o ymatebwyr 22 oed a throsodd yn anghytuno bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal leol yn diwallu eu hanghenion o'i gymharu â 40% o rai 14-16 oed (Ffigur 9).


Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â gwasanaethau cyhoeddus na dynion, ac mae anfodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddus yn amlwg yn uwch ymysg ymatebwyr sy'n byw mewn cefn gwlad agored nac mewn trefi neu bentrefi (Ffigur 10). Mae anfodlonrwydd â chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn yr ardal leol yn yr un modd ar ei uchaf ymysg menywod ac ymatebwyr 22 oed neu drosodd, ond hefyd yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol rannau o Gymru. Roedd cyfran yr ymatebwyr a gytunai bod y cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn dda yn amrywio o 15% yn Sir Benfro i 30% yng Nghonwy.




Ffigur 8: Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru' yn ôl grŵp oedran (n=1055)




Ffigur 9: Ymatebion i'r datganiad 'Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn fy ardal leol yn diwallu fy anghenion' yn ôl grŵp oedran (n=1052)




Ffigur 10: Ymatebion i'r datganiad 'Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn fy ardal leol yn diwallu fy anghenion' yn ôl math o ardal breswyl. (n=1052)

Mae'r atebion testun rhydd a roddwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn ynghylch yr hyn y maent yn ei hoffi am fyw yng nghefn gwlad Cymru yn taflu goleuni pellach ar y gwrthgyferbyniad rhwng teimladau cyffredinol cadarnhaol ynghylch bywyd gwledig ac agweddau negyddol i raddau helaeth tuag at elfennau penodol y ddarpariaeth gwasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol ac economaidd. Mae'r enghreifftiau a roddir gan ymatebwyr ynghylch yr hyn y maent yn ei hoffi am fyw yng nghefn gwlad Cymru yn ymwneud fel rheol â rhinweddau'r dirwedd wledig a'r amgylchedd, cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, diogelwch personol, a'r ymdeimlad o gymuned, er enghraifft (gweler hefyd Ffigur 11):

*Wrth fy modd yn treulio amser yn yr awyr agored ar y traeth, yng nghefn gwlad ar y mynyddoedd. Rwyf wrth fy modd ei bod hi mor rhwydd mynd atynt o fy nrws ffrynt. Mae'n hawdd ac yn hwyl bod yn egnïol mewn lle mor brydferth. (Benyw, Ceredigion)*

*Yr arfordir. Cymunedau bach a chlòs – mae pawb yn adnabod pawb ac yn edrych ar ôl ei gilydd. (Benyw, Gwynedd)*

*Rydw i wrth fy modd â'r ymdeimlad cymunedol o fyw yng nghefn gwlad Cymru. Mae hefyd yn wych cael cefn gwlad ar garreg ein drws (Benyw, Conwy)*

*Rwy'n mwynhau byw yng nghefn gwlad yn ganol byd natur a gallu mynd allan heb fod pobl eraill yno a dim llawer o draffig a llygredd awyr. (Benyw, Powys)*

*Mae'n dawel, does fawr ddim troseddu a dim troseddau treisgar yn fy mhentref, ac mae pobl yn gyfeillgar. (Gwryw, Sir Gaerfyrddin)*

*Awyr iach a mannau agored eang. Dim sŵn traffig. Gallu gweld y sêr yn y nos. Byw i raddau helaeth *yn* natur, rwy'n colli hynny mewn dinasoedd. Llawer o lefydd i fynd am dro yn agos yma. (Benyw, Sir Fynwy)*

*Mae'r gymuned yn glòs ac mae digon o gyfleoedd a phrofiadau yn cael eu cynnig e.e. Ffermwyr Ieuanc, yr Aelwyd. Rwyf hefyd yn hoffi'r golygfeydd a'r tawelwch. (Benyw, Sir Gaerfyrddin)*




Ffigur 11: Cwmwl geiriau o'r ymatebion yn yr arolwg i'r cwestiwn: 'Beth ydych chi'n ei hoffi am fyw mewn ardal wledig?'

Rhoddwyd atebion tebyg gan gyfranogwyr y grwpiau trafod i gwestiwn a oedd wedi'i eirio ychydig yn wahanol ynghylch beth oedd yn bwysig iddynt ynghylch byw yn eu hardal leol. Yn ogystal â gweithgareddau nad ydynt o reidrwydd yn benodol i ardaloedd gwledig (megis chwarae mewn tîm pêl-droed lleol a chlybiau ieuenctid), roedd y grwpiau trafod wedi sôn yn aml am yr amgylchedd gwledig, yr ysbryd cymunedol a chyfradd troseddu isel.

Roedd nifer o ymatebwyr yr arolwg yn uniongyrchol wedi cyferbynnu'r nodweddion cadarnhaol hyn am fywyd gwledig â phrofiadau neu farn am fywyd mewn ardaloedd trefol:

> *Rwyf wrth fy modd cael cefn gwlad o fy nghwmpas – mae'n ddistaw, mae lefelau golau, llygredd sain a sŵn yn isel yma. Y gymuned yn fwy dibynadwy nag mewn tref ac rwy'n teimlo'n llai fod pobl eraill yn fy mhlagio (fel merch rwy'n adnabod ffrindiau sydd wedi cael dynion yn dod atyn nhw/yn eu cyffwrdd yn amhriodol). (Benyw, Sir Gaerfyrddin)*

> *Y tawelwch, y golygfeydd ar garreg y drws. Symudais i Newcastle i fynd i'r brifysgol ac ro'n i wrth fy modd yno ond rwyf yn bendant yn fwy o berson bywyd tawel. (Benyw, Ynys Môn)*

> *Teimlo'n rhydd o ran peidio â bod yn gaeth fel mewn dinas, gallu mynd am dro pryd bynnag dwi eisiau. Golygfeydd hyfryd. (Benyw, Sir Ddinbych)*

> *Rwyf wrth fy modd â'r golygfeydd, y tawelwch, adnabod y rhan fwyaf o bobl yn fy ardal i, a'r ymdeimlad o gymuned nad ydych yn ei gael mewn dinasoedd. Dyw pobl mewn dinasoedd ddim mor gyfeillgar o 'mhrofiad i. (Benyw, Sir Benfro)*

> *Mae'n heddychlon ac yn dawel iawn yma heb "townies" gwrthgymdeithasol, anufudd yn tarfu. Mae'n amgylchedd llawer mwy cyfeillgar. (Gwryw, Sir Gaerfyrddin)*

> *Mae'n heddychlon iawn gyda golygfeydd hardd, amgylchedd naturiol anhygoel gyda'r cyfleoedd gorau ar gyfer cerdded, dringo, nofio gwyllt ac ati. Hefyd ymdeimlad llawer cryfach o gymuned yma o'i gymharu â byw mewn dinas fawr fel Manceinion neu Leeds. (Gwryw, Gwynedd)*

> *Ro'n i'n arfer byw mewn dinas, mae'n teimlo'n fwy diogel na hynny. (Benyw, Powys)*

> *Preifatrwydd, awyr iach yr awyr agored, llai o bwysau cymdeithasol na'r dinasoedd mawr. (Benyw, Ynys Môn)*

I rai cyfranogwyr, roedd y gwrthgyferbyniadau hyn wedi'u dwysáu gan gyfyngiadau symud COVID-19, a mynegwyd gwerthfawrogiad o gael mynediad i fannau gwyrdd, cadernid cymunedol ac achosion cymharol is o COVID-19 drwy dreulio'r cyfnod clo yng nghymuned wledig eu bro:

> *Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi faint o le sydd gennym yng nghefn gwlad Cymru yn ystod y cyfnodau clo llymach adeg Covid ar ôl dychwelyd o astudio mewn dinas lle byddwn wedi teimlo'n gaeth. (Benyw, Sir Benfro)*

> *Rwy'n mwynhau'r heddwch a'r tawelwch rwy'n ei gael o fyw yng nghefn gwlad Cymru, yn enwedig yn ystod COVID. Rwyf bendant yn teimlo fy mod wedi bod yn fwy diogel a heb gael fy effeithio'n aruthrol gan y cyfnodau clo oherwydd 'mod i'n byw yng nghefn gwlad ac wedi gallu mynd allan heb weld unrhyw un. Mae wedi gwneud imi werthfawrogi digonedd o le sydd yma a'r ymdeimlad o gymuned a ddaw o fyw mewn ardal fach. (Benyw, Powys)*

> *Dwi wrth fy modd â'r golygfeydd, yr ardal leol, a'r ymdeimlad cryf o gymuned. Mae pawb yn adnabod pawb ac mae pobl bob amser yn helpu ei gilydd pan fyddant mewn angen. Roedd hyn wedi cael ei deimlo'n gryf iawn yn ystod y cyfnod clo cyntaf. (Gwryw, Ynys Môn)*

> *Rhyddid – ro'n i'n gallu mynd allan am dro yn ystod y cyfnodau clo heb weld unrhyw un. (Ceredigion)*

Ar y llaw arall, mae enghreifftiau o'r hyn nad yw ymatebwyr yn ei hoffi ynghylch byw yng nghefn gwlad Cymru yn tueddu i ganolbwyntio ar gysylltiadau cymdeithasol, darpariaeth gwasanaethau a'r economi, gyda'r rhain yn aml yn cael eu mynegi yn nhermau *absenoldeb* cyfleoedd neu gyfleusterau, fel y gwelir yn amlygrwydd y gair 'diffyg' yn y cwmwl geiriau yn Ffigur 12. Cyfeiriwyd

yn aml at broblemau trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, cysylltedd band eang a signal ffonau symudol, a chyfleoedd hamdden a chymdeithasol, gyda llawer yn pwysleisio'r heriau yn deillio o hynny i fedru cymdeithasu a sut roeddent wedi cyfrannu at deimladau o unigrwydd:

> *Rwy'n teimlo'n ynysig o'r byd y tu allan, mae'n teimlo fel swigen mewn cymuned wledig. Rwy'n byw yn bell o fy ffrindiau. Does dim llawer o gyffro na chyfle i wneud pethau fel y byddech chi mewn dinas. (Benyw, Ceredigion)*
>
> *Yn amlach na pheidio, dwi'n teithio dros y ffin yn y pen draw i wneud gweithgareddau cymdeithasol gyda ffrindiau achos dydi'r un cyfleusterau ddim yng nghefn gwlad Cymru (Benyw, Conwy)*
>
> *Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn lleol yn peri problemau ofnadwy achos dydi gwasanaethau bysiau byth yn cyd-fynd yn iawn â'i gilydd a'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith trafnidiaeth yn gorffen am 5pm. (Gwryw, Conwy)*
>
> *Nunlle i fynd iddo – theatrau, amgueddfeydd, canolfannau gwyddoniaeth, dim dosbarthiadau i'w cymryd ar ôl ysgol neu yn ystod gwyliau. Trafnidiaeth ofnadwy. (Benyw, Ceredigion)*
>
> *Prin ddim cyfleoedd swyddi. Rhwydd teimlo'n ddiflas yn gweld yr un bobl drwy'r amser. (Benyw, Powys)*
>
> *Alla i ddim gyrru ac rwy'n byw ar fynydd yng nghanol unman felly pan fydda i'n ôl o'r brifysgol ar ôl cyfnod o amser dwi'n gallu mynd i deimlo'n gaeth yn gyflym iawn achos dyw trafnidiaeth gyhoeddus ddim yn bodoli yn ymarferol lle rwyf i'n byw. (Benyw, Sir Gaerfyrddin)*
>
> *Rwy'n teimlo'n hynod o ynysig ac wedi 'nghyfyngu yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, gan fod llai o bobl yn byw yn fy ardal i ac allaf i ddim mynd i unman heb yrru/trafnidiaeth gyhoeddus prin. Rwy'n teimlo fel petawn wedi cael fy rhoi yn ddiogel mewn cornel ac yn methu ag ehangu fy mhrofiadau fel oedolyn. Teimlaf hefyd mai prin yw'r cyfleoedd i mi symud ymlaen mewn bywyd. (Benyw, Gwynedd)*
>
> *Dim siop leol, dim swyddi, dim gobaith mewn pobl ifanc ar gyfer y dyfodol, dim uchelgais i gyflawni. Yr unig bethau i'w gwneud yn gymdeithasol yw yfed a bwyta mewn siopau cadwyn yn bwyta bwyd sydd ddim yn iach. Pobl ifanc gwrthgymdeithasol. (Benyw, Sir Gaerfyrddin)*
>
> *Mae'r cysylltedd â band eang a signal ffôn symudol yn wael iawn, felly mae'n anoddach cysylltu â phobl neu fwynhau fy niddordebau (e.e. chwarae gemau ar-lein gyda ffrindiau). (Benyw, Sir Benfro)*
>
> *Mae cysylltedd y rhyngrwyd yn ofnadwy, mae'n ei gwneud hi'n anodd gweithio gartref/gwneud gwaith papur neu waith cwrs ar-lein (mae'n cymryd llawer mwy o amser i ymchwilio a chyflwyno gwaith i'r brifysgol) ac mae'n gallu cyfyngu ar eich bywyd cymdeithasol rywfaint. Mae'n gallu bod yn fwy caethiwus pan fyddwch am gymdeithasu â ffrindiau gan fod angen ichi gael mynediad at drafnidiaeth, yn enwedig pan ydych chi am gael diod bach. (Benyw, Ceredigion)*
>
> *Dydw i ddim yn hoffi'r diffyg annibyniaeth sydd gen i fel person ifanc yma. Mae popeth ynghylch byw yma yn anoddach oherwydd fod y seilwaith yn fwy gwan a diffyg buddsoddiad sy'n cyfyngu ar weithgareddau hamdden yn ogystal â chyflogaeth. Mae gen i lai o ffrindiau yma ac mae'n anoddach eu gweld ac mae llai o bethau i ni ei wneud. (Gwryw, Ceredigion)*
>
> *Does dim WiFi cryf lle rwy'n byw a dyddie hyn mae'n rhywbeth angenrheidiol. Rydych chi'n cael eich cosbi a'ch gwneud i deimlo'n dwp yn yr ysgol oherwydd dydych chi ddim yn gallu defnyddio fformat y gwaith cartref. Rwyf wedi cael fy ngalw yn "gelwyddgi" o flaen fy ffrindiau a fy nheulu achos mi ddywedais i nad oes 'da fi WiFi na signal. (Benyw, Sir Fynwy)*

*Allwn ni ddim cael just eat/uber eats ac ati lol a does dim byd y gallwch chi ei wneud os ydych yn teimlo'n bôrd a ddim yn mynd allan am y diwrnod oherwydd does dim byd o fewn pellter cerdded, byddai'n rhaid i mi gael lifft i bobman. (Benyw, Sir Fynwy)*

*Diffyg opsiynau i gael bwyd tec-awê, mynd i gampfa a phethau eraill y mae pobl yn y ddinas yn eu cymryd yn ganiataol. (Gwryw, Powys)*




Ffigur 12: Cwmwl geiriau o'r ymatebion yn yr arolwg i'r cwestiwn: 'Beth nad ydych chi'n ei hoffi am fyw mewn ardal wledig?'

Soniodd sawl ymatebydd yn benodol mai pryder mawr ganddynt yw anawsterau cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd, rhai yn sôn am y peth o brofiad personol, gydag un yn dweud bod "atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd fel petaent yn cymryd yn llawer mwy o amser na phan oeddwn i'n byw mewn dinas", ac un arall yn dweud bod yn rhaid iddynt deithio o Sir Benfro i Gaerdydd i gael gofal meddygol ac yn mynegi ofnau bod "gormod o alw yn yr ysbytai lleol a dim digon o staff, mae'n codi ofn arnaf pe bawn yn cael anaf ac yn gorfod mynd i'r Adran Ddamweiniau gan fy mod yn gwybod y byddwn yn debygol o fod yno am oriau ac oriau."

Yn ogystal â materion yn ymwneud â gwasanaethau a seilwaith neu absenoldeb cyfleoedd diwylliannol, cyflogaeth neu dai, soniodd ymatebwyr hefyd am eu barn am effaith negyddol elfennau o'r berthynas wledig-trefol ar ardaloedd gwledig. Cyfeiriwyd yn benodol am effaith twristiaeth, yn enwedig, gan nifer o ymatebwyr i fod yn elfen negyddol byw yng nghefn gwlad Cymru:

*Gan fy mod yn byw ar fynydd mae llawer o bobl yn cerdded heibio i'n tŷ ni ac yn parcio yn blocio'r ffyrdd felly mae'n anodd gadael y tŷ. Mae pobl hefyd yn taflu sbwriel ac yn dinistrio'r planhigion ar y llwybrau drwy eu tynnu i fyny ac yn torri'r canghennau. (Benyw, Sir Fynwy)*

*Dydw i ddim yn hoffi gweld ymwelwyr yn dod i fy ardal ac yn ei thrin yn amharchus, e.e. gadael sbwriel. (Benyw, Sir Ddinbych)*

*Ymwelwyr. Dim byd i'w wneud oni bai ei fod wedi'i anelu at ymwelwyr. Mae'r sir fel ghost town yn ystod misoedd yr hydref/gaeaf. Mae perchnogion ail gartrefi wedi codi prisiau ar gyfer pob math o dai ac allaf i ddim fforddio un. Ffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael ac eithrio'r prif rai ar gyfer twristiaid. (Gwryw, Sir Benfro)*

*Mae twristiaid yn heidio i fy ardal i ac yn amharchu'r amgylchedd a does 'da nhw ddim dealltwriaeth bod yn rhaid i'r bobl leol weithio. (Benyw, Sir Benfro)*

*Sa i'n hoffi'r holl bobl sy'n dod yma a ddim yn gwybod sut i ymddwyn yn iawn yng nghefn gwlad achos does neb wedi'u dysgu nhw am y cod cefn gwlad yn yr ysgol. Mae'r ffyrdd yn rhy brysur gyda phobl sydd ddim yn gwybod sut i yrru mewn ardaloedd gwledig ac mae'n codi ofn arnaf i adael y tŷ, felly allaf i ddim mwynhau'r ardal rwy'n byw ynddi yn ystod gwyliau'r ysgol. (Benyw, Sir Benfro)*

*Mae'r trefi bach yn orlawn yn yr haf gyda pherchnogion ail gartrefi a phobl ar eu gwyliau sy'n golygu bod pawb sy'n gweithio yn y maes lletygarwch wedi'u gorweithio a heb eu talu'n iawn. (Gwryw, Sir Benfro)*

Unwaith eto, adlewyrchwyd atebion yr arolwg yn nhrafodaethau'r grwpiau, a'r heriau neu broblemau a godwyd yn tueddu i ganolbwyntio ar swyddi prin a thrafnidiaeth gyhoeddus, diffyg siopau, pwysau o ail gartrefi a thwristiaeth, ac anhawster cymdeithasu â ffrindiau a chwrdd â phobl newydd.

Mae profiadau negyddol a'r argraff am fywyd yng nghefn gwlad yn cyfrannu at benderfyniadau pobl ifanc i symud o ardaloedd gwledig Cymru, eto cydnabyddir hefyd fod allfudo yn cael effaith ddwysach ar ddemograffig sy'n heneiddio yn y cymunedau gwledig gan gynyddu unigedd pobl ifanc, yn enwedig i'r rhai sy'n aros pan fydd cyfoedion yn gadael i gael gwaith neu i fynd i'r brifysgol:

*Ar adegau rwy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd i gymdeithasu. Mae llawer o bobl yr un oed â fi wedi symud o'ma. (Benyw, Gwynedd)*

*Rwy'n teimlo'n ynysig oddi wrth y rhan fwyaf o bobl fy oedran i – mae fy mhentref yn llawn pobl oed fy rhieni neu'n hŷn. (Benyw, Sir Benfro)*

*DOES NEB YMA. Fi yw'r unig berson dan 20 oed a dros 15 oed mewn radiws o 5 milltir o leiaf. (Benyw, Sir Fynwy)*

*Mae fy ffrindiau ysgol i gyd wedi symud i ddinasoedd i astudio a gweithio. A does dim llawer o lefydd i gymdeithasu fel tafarndai. (Benyw, Powys)*

*Mae pawb yn hen ac yn marw. Mae'r holl bobl ifanc sy'n gallu gadael, yn gadael, i fynd i'r brifysgol neu waith. Yr unig bobl ifanc sydd ar ôl yma yw'r rhai nad oes gyda nhw'r gallu i adael. (Gwryw, Sir Gaerfyrddin)*

*Does dim llawer o oedolion lleol oboitu, felly mae gwneud ffrindiau yn gallu bod yn anodd a dim llawer o gyfleoedd o ran gweithgareddau a diddordebau. (Benyw, Sir Benfro)*

I rai pobl ifanc, mae anawsterau cymdeithasu â ffrindiau a theimladau o unigrwydd, nid yn unig yn ychwanegu at deimladau negyddol tuag at fyw yng nghefn gwlad Cymru, ond hefyd wedi cyfrannu at broblemau gydag iechyd meddwl, fel y disgrifia rhai ymatebwyr yr arolwg:

> *Mae'n ynysig iawn ar adegau. Does 'da fi ddim ffrindiau fy oedran i sy'n byw'n agosach nag awr ataf. Fi yw'r unig un o fy ffrindiau sydd â chludiant. Mae'n unig iawn ac yn aml iawn rwy'n teimlo'n eithaf digalon. (Benyw, Sir Fynwy)*
>
> *Rwy'n hoffi'r heddwch ond mae cael llai o bobl yn fy ardal i, yn enwedig pobl ifanc, wedi golygu fy mod i wedi dioddef o unigrwydd yn ystod y pandemig a gallai'r un peth ddigwydd eto petawn i'n dod yn ôl yn y dyfodol. (Benyw, Sir Gaerfyrddin)*

Soniodd unigolion eraill am broblemau iechyd meddwl yn codi o agosatrwydd cymunedau gwledig, neu fynegi anfodlonrwydd â gwasanaethau gofal iechyd meddwl, neu gymorth ar gyfer anghenion dysgu arbennig neu anableddau cudd. Dim ond ambell ymatebydd a soniodd am agweddau mwy cadarnhaol bywyd gwledig o ran iechyd meddwl, gan gynnwys llai o straen, lle ar gyfer ymwybyddiaeth ofalgar, a manteision i'r rheiny sy'n dioddef o bryder cymdeithasol.

Yn ddiddorol, roedd cryn nifer o'r farn gadarnhaol a negyddol am fywyd yng nghefn gwlad Cymru yn seiliedig ar werthoedd. Ar y naill law, ceid gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt sy'n adlewyrchu gwerthoedd o blaid yr amgylchedd, er bod ambell ymatebydd wedi crybwyll anawsterau prynu nwyddau ecogyfeillgar yn lleol fel elfen negyddol. Yn yr un modd roedd ambell ymatebydd wedi cyfeirio at ymdeimlad nad oes haenau dosbarth cymdeithasol yng nghefn gwlad neu fod prynwriaeth (*consumerism*) yn llai dwys fel pethau yr oeddent yn eu hoffi ynghylch byw yno. Ar y llaw arall, cyfeiriodd ymatebwyr yr arolwg at ddiffyg amrywiaeth yn y boblogaeth wledig ac amgyffrediad o agweddau cul, homoffobia a senoffobia fel agweddau negatif bywyd yng nghefn gwlad Cymru, er enghraifft:

> *Tuedda safbwyntiau gwleidyddol ac ati i fod yn fwy ceidwadol, dydi pobl ddim mor oddefgar o leiafrifoedd fel arfer mewn ardaloedd gwledig. (Benyw, Gwynedd)*
>
> *Gall y bobl fod â meddylfryd ychydig yn hen ffasiwn, yn hiliol yn erbyn pobl sydd ddim* yn *Gymry, yn gul eu meddwl. (Anneuaidd, Conwy)*
>
> *Does fawr o gyfle i weld gweddill y byd a chael profiadau gyda diwylliannau/pobl wahanol gan y bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu geni yn fy mhentref yn byw, yn gweithio ac yn marw yno, felly mae'n cyfyngu ar y cysylltiadau sydd gan y pentref â chymunedau y tu allan iddo'i hun. (Sir Fynwy)*
>
> *Pa mor hawdd yw hi i chi gael eich cau allan yn gymdeithasol am beidio ag adnabod y bobl iawn. A pha mor gaeedig y gall lleoedd fod i bobl o'r tu allan. (Gwryw, Ynys Môn)*
>
> *Mae llawer o bobl yn fy ymyl yn rhagfarnllyd ac yn gul eu meddwl o ran lleiafrifoedd a phethau sy'n wahanol i'r norm. (Gwryw, Powys)*
>
> *Dydi o ddim yn amrywiol iawn ac mae gan lawer o bobl safbwyntiau hen ffasiwn iawn. (Benyw, Powys)*
>
> *Homoffobig, trawsffobig, dim rhyngrwyd da, gwasanaethau annigonol, cyfleoedd cyflogaeth annigonol, cenedlaetholdeb senoffobig, addysg sy'n cael ei rhedeg yn wael. (Benyw, Powys)*
>
> *Trawsffobia, homoffobia, hyd yn oed y syniad nad yw'r rhan fwyaf o bobl dwi'n cerdded heibio iddynt yn y dre hyd yn oed yn gwybod beth yw'r pethau hyn. (Gwryw, Powys)*

*Mae diffyg amrywiaeth o ran oedran, rhywiau, crefyddau, credoau. Mae'n tueddu i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â dinasoedd. Mae mwy o hiliaeth, rhywiaeth a homoffobia. (Benyw, Sir Gaerfyrddin)*

Soniodd rhai ymatebwyr am brofiad personol o wahaniaethu oherwydd eu rhywioldeb, neu sôn am anawsterau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau cymorth neu ddigwyddiadau LGBTQ+:

*Tueddu i brofi gelyniaeth yn y gymuned leol am fod yn LHDT+ ac yn rhywun ar y cyrion. (Benyw, Sir Ddinbych)*

*Dydw i chwaith ddim yn hoffi'r ffaith fy mod weithiau'n teimlo mwy o feirniadaeth achos dydw i ddim yn ffitio i mewn oherwydd fy mod yn drawsrywiol. (Gwryw, Powys)*

*Rhaid i mi deithio cryn dipyn i fynd i ddigwyddiadau LGBTQ+, gwyliau a chyngherddau hefyd. (Benyw, Sir Benfro)*

Mynegodd un ymatebydd, fodd bynnag, safbwynt cyferbyniol, gan nodi:

*Mae fy hoffter o fyw yng nghefn gwlad Cymru yn deillio'n benodol o fod yn cwiar – teimlo fel petaech yn meddiannu'r gofod yn wahanol i sut y gallai rhai ddisgwyl i chi wneud hynny. Yn yr ystyr hwn, mae fy hoffter o Gymru wledig yn hynod bersonol ac yn ymwneud â fy mhrofiad fy hun o fyw yn hytrach na rhestr wrthrychol o bethau am y Gymru wledig ei hun fel amgylchedd. Mae ymdeimlad o botensial i fyw yng nghefn gwlad Cymru ac rwy'n mwynhau hynny – mewn ffordd, y diffyg cyfleoedd cymdeithasol sy'n gwneud i chi werthfawrogi'r rhai sy 'da chi – neu'r rhai serendipaidd sy'n digwydd ar hap – yn eu gwneud hyd yn oed yn fwy arbennig. (Gwryw, Sir Gaerfyrddin)*

Dylid nodi nad oedd y farn am fyw yng nghefn gwlad Cymru ymysg ymatebwyr yr arolwg a ddisgrifiai eu hunain yn anneuaidd neu'n ansicr am eu rhywedd yn wahanol iawn i farn y sampl yn ei gyfanrwydd, gyda 70% ohonynt yn cytuno eu bod yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru a dim ond 10.5% yn anghytuno.

I gryn nifer o bobl ifanc, mae mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru yn gysylltiedig agos â hunaniaeth Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol. Dywedodd dros ddau o bob pump o ymatebwyr yr arolwg ei bod hi'n well ganddynt fyw mewn cymuned Gymraeg ei hiaith (Ffigur 13), gan gynnwys 60% o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond dim ond 20% o siaradwyr Cymraeg rhugl ail iaith (Ffigur 14). O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn well ganddynt fyw mewn cymuned Gymraeg ei hiaith, dywedodd 96% eu bod yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru ac adlewyrchwyd y cysylltiad ymhellach yn yr atebion testun rhydd i'r cwestiwn ynghylch yr hyn yr hoffent fwyaf ynghylch byw yng nghefn gwlad Cymru, er enghraifft:

*Cymuned gyfeillgar, cymuned Gymraeg ei hiaith, adnabod pawb, pobl leol yn glên. (Benyw, Gwynedd)*

*Gallu byw drwy gyfrwng y Gymraeg. Y diwylliant lleol rydw i wedi cael fy magu ynddo. Bywyd tawelach, mwynhau natur. (Benyw, Gwynedd)*

*Dwi wrth fy modd â'r byd natur, y golygfeydd a'r Gymraeg. Mae'r cyfan yn golygu cymaint i mi, a byddaf bob amser yn ddiolchgar am gael fy magu mewn ardal mor brydferth. (Benyw, Gwynedd)*

*Dwi'n hoffi'r ffaith ei bod yn ardal lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg, ac ymdeimlad cryf o genedlaetholdeb Cymraeg. (Gwryw, Ceredigion)*


*Y gymuned sydd gen i gyda phobl eraill sydd mewn cysylltiad â'u hunaniaeth Gymraeg a'u hanes. (Gwryw, Powys)*

*Mae hanes dwfn i gefn gwlad ac mae'n helpu i roi cysylltiad â diwylliant Cymru. (Anneuaidd, Ceredigion)*


*Y tawelwch, presenoldeb y Gymraeg, y gymuned, teimlo'n ddiogel. (Benyw, Ceredigion)*

*Llonyddwch, cymuned glòs (a Chymraeg ei hiaith), gwyrddni, dod i adnabod natur a'n gwlad yn well. (Gwryw, Gwynedd)*

*Yn dawel a lle i fynd am dro a chael awyr iach. Mae'r elfen cymuned Gymraeg hefyd yn bwysig iawn. (Gwryw, Sir Gaerfyrddin)*





Ffigur 13: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Byddai'n well gen i fyw mewn cymuned lle mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg' (n=1042)





Ffigur 14: Dymuniad i fyw mewn cymuned Gymraeg ei hiaith yn ôl gallu iaith

Mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn fwy tebygol na'r bobl ifanc yn gyffredinol i fwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru, i fod eisiau aros yn eu hardal leol drwy gydol eu hoes, i gynllunio symud yn ôl yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn gorfod symud i ffwrdd, ac i fod o'r farn fod cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn eu hardal leol yn dda. Cytunai traean y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf fod gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal leol yn diwallu eu hanghenion, o'i gymharu â chwarter yr ymatebwyr drwyddi draw (Ffigur 15); hyd yn oed yn fwy trawiadol, cytunai dros draean y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf fod cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol da ar eu cyfer yn eu hardal leol, o'i gymharu â llai nag un pumed o'r ymatebwyr eraill (Ffigur 16). Mae'r gwahaniaeth rhwng siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a siaradwyr Cymraeg ail iaith rhugl yn enwedig o amlwg, sy'n awgrymu nad gallu yn yr iaith fel y cyfryw yw'r ffactor gwahaniaethu, ond yn hytrach bod iaith gyntaf yn rhan o hunaniaeth gymunedol ddiwylliannol sy'n effeithio ar ymdeimlad o berthyn a barn am fywyd yng nghefn gwlad Cymru.

Yn yr un modd, mae'n bwysig nodi nad oedd unrhyw Gymraeg gan 14% o'r bobl ifanc sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru a atebodd yr arolwg. Mae'r grŵp hwn yn llai tebygol na'r sampl yn ei gyfanrwydd i fwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru, yn llai tebygol o feddwl fod cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol da iddynt yn lleol, yn llai tebygol o fod eisiau dychwelyd i'w hardal leol os ydynt yn symud oddi yno, yn fwy tebygol o fod yn poeni am ddod o hyd i swydd yn lleol, ac yn fwy tebygol o ddweud y byddai'n well ganddynt fyw mewn dinas neu dref fwy o faint. Nid yw'n syndod bod gorgyffwrdd rhwng y grŵp hwn a'r rheiny nad ydynt eisiau byw mewn cymuned lle mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg, ac mae'n werth nodi mai ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r datganiad 'Byddai'n well gen i fyw mewn cymuned lle mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg' oedd y rhai mwyaf anfodlon â bywyd gwledig, gyda dim ond 50% yn dweud eu bod yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru a 26% yn anghytuno.





Ffigur 15: Ymatebion i'r arolwg ar wasanaethau cyhoeddus yn eu hardal leol yn ôl gallu iaith (n=1055)





Ffigur 16: Ymatebion i'r arolwg ar gyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn ôl gallu iaith (n=1054)

## Tai a'r Farchnad Lafur


Cyfeirir yn aml at gyfleoedd cyflogaeth a gallu cael tŷ fel ffactorau gwthio mewn dadleuon ynghylch allfudo ieuenctid o gefn gwlad Cymru a soniwyd am hyn yn fynych gan ymatebwyr yr arolwg mewn perthynas â'r hyn nad oeddynt yn ei hoffi ynghylch byw yng nghefn gwlad. At ei gilydd, dywedodd 59% o ymatebwyr eu bod yn pryderu ynghylch gallu fforddio prynu tŷ yn eu hardal leol, gyda dim ond pumed ohonynt yn dweud nad oeddynt yn poeni (Ffigur 17). Cafwyd y lefelau pryder uchaf ymysg ymatebwyr 22 oed neu drosodd (69%), siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf (69%) a phobl ifanc yn byw mewn cefn gwlad agored (64%), yn hytrach na phentrefi neu drefi bach (Ffigurau 18 a 19).




Ffigur 17: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Rwy'n poeni am allu fforddio prynu tŷ yn fy ardal leol' (n = 1054)





Ffigur 18: Ymatebion i'r arolwg ar bryderon ynghylch fforddiadwyedd tai yn ôl grŵp oedran




Ffigur 19: Ymatebion i'r arolwg ar bryderon ynghylch fforddiadwyedd tai yn ôl lleoliad eu cartref

Mae gan y rhan fwyaf o bobl ifanc yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig Cymru bryderon ynghylch fforddiadwyedd tai, ond mae rhai amrywiadau rhwng siroedd. Codai'r pryder amlaf yn Sir Benfro, lle cytunai 69% o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn poeni ynghylch gallu fforddio prynu tŷ yn eu hardal leol, ac yng Nghonwy (68%). Powys yw'r unig sir lle cafwyd llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno eu bod yn pryderu am fforddiadwyedd tai, sef 49% (Ffigur 20).




Ffigur 20: Ymatebion i'r arolwg ar bryderon ynghylch fforddiadwyedd tai yn ôl sir

Yn ddiddorol, nid yw'r amrywiadau daearyddol ym mhryderon pobl ifanc ynghylch fforddiadwyedd tai yn cyd-fynd ag amrywiadau mewn naill ai prisiau tai canolrifol na chymhareb prisiau tai i enillion lleol, fel y dengys Tabl 2. Conwy sydd ail uchaf o ran lefel pryder ynghylch fforddiadwyedd tai, ond nid yw ond y 6ed uchaf o ran prisiau tai o blith y naw sir sy'n bennaf wledig yng Nghymru. Ceredigion, ar y llaw arall, sydd â'r ail leiaf o ran cymhareb fforddiadwyedd prisiau i enillion, ond roedd cyfran ymatebwyr yr arolwg a ddywedai eu bod yn pryderu am dai yn drydydd o'r gwaelod. Powys gofrestrodd y lefel pryder isaf am dai ymysg ymatebwyr yr arolwg ond y sir hon sydd â'r prisiau tai canolrifol ail uchaf yng nghefn gwlad Cymru, a'r pedwerydd gwaethaf o ran cymhareb prisiau tai i enillion.

Nid yn unig y mae prisiau eiddo yn cyfrannu at bryderon pobl ifanc ynghylch tai ond hefyd y cyflenwad tai – sy'n egluro'r pryder uwch ymysg ymatebwyr yn byw mewn cefn gwlad agored – a thrwy drafodaethau sy'n cylchredeg yn y cyfryngau lleol ac mewn gwleidyddiaeth ynghylch tai ac yn enwedig effaith mewnfudo ac ail gartrefi. Adlewyrchid y syniadau hyn yn y sylwadau ynghylch yr hyn na hoffai ymatebwyr yr arolwg ynghylch byw yng nghefn gwlad Cymru:

> *Twristiaid yn meddwl eu bod nhw'n bwysig. Landlordiaid yn ei gwneud yn amhosibl i bobl leol godi eu hunain allan o dlodi ac mae tai sy'n dod ar gael yn cael eu prynu gan ragor o landlordiaid, neu Saeson eisiau gwneud arian cyflym drwy AirBnB. (Anneuaidd, Gwynedd)*
>
> *Dim tai fforddiadwy nawr ei fod yn dod yn gyrchfan gwyliau mwy dymunol ac yn hafan i berchnogion ail gartref. Mae'n teimlo fel bod trigolion yn cael eu gorfodi i fynd i'r De neu i Loegr, hyd yn oed os hoffent brynu yma. (Benyw, Ceredigion)*

| | % yr ymatebwyr yr arolwg yn pryderu am fforddiadwyedd tai | Pris tŷ canolrifol, Awst 2021 (£) | Cymhareb pris tai canolrifol: enillion canolrifol, 2019 |
|---|---|---|---|
| Sir Benfro | 68.6% | 210,647 | 7.10 |
| Conwy | 68.4% | 200,292 | 6.84 |
| Sir Fynwy | 63.8% | 313,167 | 8.74 |
| Sir Gaerfyrddin | 61.3% | 184,900 | 5.46 |
| Gwynedd | 60.9% | 189,112 | 6.63 |
| Ynys Môn | 60.8% | 211,474 | 6.77 |
| Ceredigion | 59.2% | 220,291 | 7.32 |
| Sir Ddinbych | 57.8% | 181,413 | 5.65 |
| Powys | 49.2% | 221,646 | 6.90 |

Tabl 2: Ymatebwyr yr arolwg yn cytuno â'r datganiad eu bod yn poeni am fedru fforddio prynu tŷ yn eu hardal leol yn ôl sir, o'i gymharu â chymhareb prisiau tai canolrifol a fforddiadwyedd tai. (Ffynonellau: Y Gofrestrfa Tir, ONS)


> *Mae prisiau tai hefyd wedi cynyddu'n aruthrol, yn fwy felly dros COVID, ac maen nhw'n cael eu prynu gan bobl a oedd wedi bod yma ar eu gwyliau ac yn mynd i'w rhentu fel lle gwyliau. Yn syml, nid yw'n fforddiadwy i ni. (Benyw, Powys)*
>
> *Teimlad fod rhai tai yn yr ardal yn cael eu hysbysebu go iawn ar gyfer pobl i'w prynu fel tŷ haf, neu i'w rentu fel AirBnB ar adegau. (Benyw, Gwynedd)*

Er bod 21% o ymatebwyr yr arolwg wedi nodi nad oeddent yn pryderu am allu fforddio prynu tŷ yn lleol, dim ond un ymatebydd a soniodd am 'dai rhad' ymysg y pethau roeddent yn eu hoffi am fyw yng nghefn gwlad Cymru. Yn fwy cyffredin, roedd sylwadau gan ymatebwyr yn priodoli eu hofnau am dai i'r cyfuniad o brisiau cymharol uchel a chyflogau cymharol isel yn yr economi leol:


> *Dim cyfleoedd a phrisiau tai allan o 'nghyrraedd i a dwi'n gweithio'n llawn amser. (Gwryw, Gwynedd)*
>
> *Diffyg cyfleoedd swyddi a chyfleoedd i ennill bywoliaeth fforddiadwy ac urddasol. Rwyf eisiau ennill digon i mi fedru codi morgais ar eiddo, gallu teithio. Fyddai unrhyw swydd y gallwn ei chael gartref ddim yn fy ngalluogi i wneud hyn ac mae diffyg cyfleoedd sylweddol i wneud hynny. (Benyw, Powys)*
>
> *Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anodd meddwl am brynu tŷ gyda phrisiau yn fy ardal mor uchel o ran pris. Rydyn ni'n rhentu ar hyn o bryd, ac mae'r syniad o geisio cynilo blaendal ar gyfer tŷ yn yr un pentref wir yn achosi straen a phryder i mi. Prisiau afrealistig iawn o'u cymharu â chyflogau a phris byw yn yr ardal hon. Dydyn nhw ddim yn cyfateb â'i gilydd. (Benyw, Gwynedd)*

Yn fwy cyffredinol, dim ond 22% o ymatebwyr yr arolwg a oedd yn cytuno bod cyfleoedd cyflogaeth yn eu hardal leol yn dda, a 63% yn poeni am ddod o hyd i swydd addas yn lleol (Ffigurau 21 a 22). Tuedda dynion i fod ychydig yn fwy cadarnhaol na menywod am y farchnad lafur leol yn gyffredinol ac am eu rhagolygon swyddi eu hunain. Mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn fwy cadarnhaol ynghylch marchnadoedd llafur lleol na phobl ifanc yn gyffredinol, gyda 28% yn cytuno bod cyfleoedd cyflogaeth yn dda yn eu hardal leol (a 46% yn anghytuno), ac ychydig yn llai pryderus am eu rhagolygon swyddi personol, gyda 58% yn dweud eu bod yn poeni


am ddod o hyd i swydd addas yn eu hardal leol (Ffigur 23). Mae'r farn am gyfleoedd cyflogaeth yn lleol yn fwyaf cadarnhaol yn Sir Fynwy a Phowys, lle credai chwarter o ymatebwyr eu bod yn dda, gan gyferbynnu â Sir Ddinbych, lle cytunai 16% o ymatebwyr yn unig. Roedd ychydig llai o ymatebwyr yn Sir Fynwy a Phowys yn poeni am ddod o hyd i swydd addas yn lleol, gyda'r lefelau pryderon uchaf yn Sir Benfro (68% o ymatebwyr), Conwy (67%) a Sir Gaerfyrddin (68%) (Ffigur 24).





Ffigur 21: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Mae'r cyfleoedd cyflogaeth yn fy ardal leol yn dda' (n=1054)




Ffigur 22: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Rwy'n poeni am ddod o hyd i swydd addas yn fy ardal leol' (n=1054)




Ffigur 23: Pryderon am ddod o hyd i swydd addas yn lleol yn ôl gallu iaith




Ffigur 24: Ymatebwyr yr arolwg yn mynegi pryder ynghylch dod o hyd i swydd addas yn eu hardal leol, yn ôl sir

Roedd pryderon ynghylch dod o hyd i gyflogaeth addas hefyd yn gwahaniaethu yn ôl oedran, addysg a'r sector economaidd sydd o ddiddordeb i'r ymatebydd. Cyfeiriodd ambell ymatebwr at gyfleoedd mewn swyddi sy'n berthnasol i'w diddordebau fel elfen bositif byw yng nghefn gwlad Cymru, gan gynnwys un yng Nghonwy a nododd fod "llawer o gyfleoedd swyddi – ar hyn o bryd dwi'n gweithio'n rhan amser mewn twristiaeth ac yn dysgu ffermio". Yn yr un modd roedd cyfranogwr mewn sesiwn drafod grŵp yng Ngheredigion yn dilyn gyrfa mewn arlwyo ac felly o'r farn fod cyfleodd gwaith da ar gael iddynt yn lleol. Ar yr un pryd, roedd ymwybyddiaeth hefyd o brinder swyddi mewn sectorau megis twristiaeth a lletygarwch, yn ogystal â chulni'r swyddi a gynigid:

> *Yr unig anfantais i fyw mewn ardal wledig yw bod cyfleoedd ym mhob maes yn brin yma ac i gael swydd mae'n rhaid i ni deithio fel arfer. Rydw i mewn swydd lawn amser ar hyn o bryd ond pan fydd y contract yn dod i ben rydw i'n poeni ynghylch dod o hyd i waith rydw i eisiau bod ynddo sy'n lleol – sy'n drist oherwydd dydw i byth eisiau gadael fan'ma. (Benyw, Gwynedd)*
>
> *Dim dilyniant gyrfa oni bai eich bod am fod yn athro neu'n ffermwr. (Benyw, Powys)*

Yn benodol, cyfeiriwyd at gyfleoedd prin i gael cyflogaeth a swyddi ar lefel raddedig yn y diwydiannau creadigol fel elfennau negyddol byw yng nghefn gwlad Cymru gan ymatebwyr yr arolwg:

> *Ychydig o gyfleoedd swyddi sydd yna i rywun sydd wedi bod drwy addysg uwch. Wrth ymgeisio am swyddi mae'n aml fel petai'n ymwneud yn fwy â phwy rydych yn eu nabod yn yr ardal yn hytrach na'ch sgiliau neu brofiad. (Benyw, Sir Benfro)*
>
> *Diffyg cyfleoedd i artistiaid, diffyg gyrfaoedd yn hytrach na swyddi rhan amser. Alla i ddim rhoi fy ngradd ar waith yma. (Benyw, Sir Benfro)*


Roedd myfyrwyr sydd ar hyn y bryd mewn addysg uwch yn tueddu i fod yn fwy beirniadol o gyfleoedd cyflogaeth yn ardal eu cartref ac yn fwy pesimistaidd am eu rhagolygon swyddi personol na'r ymatebwyr yn eu cyfanrwydd, gyda 73% yn dweud eu bod yn poeni am ddod o hyd i swydd addas yn eu hardal leol (Ffigur 25). Cytunai mwy na 88% o fyfyrwyr AU cyfredol â'r datganiad y byddai angen iddynt symud o'u hardal leol i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth – er bod rhai wedi dehongli hyn i gynnwys eu hastudiaethau presennol yn y brifysgol, mae hefyd yn debyg yn adlewyrchu na fydd swyddi addas ar lefel graddedigion ar gael ym mro eu mebyd.

Fodd bynnag, nid swyddi ar lefel graddedigion yn unig sy'n broblem. Yr unig grŵp a oedd yn fwy negyddol am y farchnad lafur wledig na myfyrwyr prifysgol oedd ymatebwyr a oedd ar hyn o bryd mewn rhyw fath arall o hyfforddiant, megis prentisiaeth neu hyfforddiant galwedigaethol. Dim ond 14% o'r grŵp hwn a gredai fod cyfleoedd cyflogaeth yn lleol yn dda, gyda 71% yn anghytuno; roedd 86% yn pryderu am ddod o hyd i swydd addas yn yr ardal leol; a 86% yn meddwl y byddai angen iddynt symud oddi yno i gael cyflogaeth neu hyfforddiant.

Ar yr un pryd, er bod ymatebwyr sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd (a ddim yn astudio hefyd) fel rheol yn llai negyddol na'u cyfoedion ynghylch eu rhagolygon swydd, roedd 65% yn dal yn anghytuno bod cyfleoedd cyflogaeth yn lleol yn dda, roedd 57% yn pryderu ynghylch dod o hyd i swydd addas, a dau draean yn dal yn meddwl y byddai angen iddynt symud i ffwrdd i gael cyflogaeth, gan gyfeirio yn fwy at broblemau yn gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch swyddi yng

nghefn gwlad Cymru yn hytrach na'u nifer (dim ond 4% o ymatebwyr yr arolwg oedd yn ddi-waith, sy'n is na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig). Mae hyn yn cynnwys graddedigion sydd wedi dychwelyd i ardal eu cartref ar ôl prifysgol, yn ogystal â phobl ifanc sydd wedi mynd i weithio yn hytrach nag i addysg uwch. Yn wir, cytunai 72% o ymatebwyr 21 oed neu drosodd â'r datganiad y byddai angen iddynt symud o'u hardal leol i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.


Mewn gwrthgyferbyniad, ymatebwyr a oedd yn dal yn yr ysgol oedd yn fwyaf cadarnhaol ynghylch cyfleoedd cyflogaeth yn lleol ac yn poeni leiaf ynghylch dod o hyd i swydd addas, naill ai am fod y mater yn bellach oddi wrthynt, neu am eu bod wedi dehongli'r cwestiwn mewn perthynas â dod o hyd i waith rhan-amser, gyda thwristiaeth yn cael ei roi fel opsiwn ar gyfer cyflogaeth dymhorol neu ar y penwythnos.





Ffigur 25: Pryderon ynghylch dod o hyd i gyflogaeth addas yn ôl statws cyfredol addysg neu waith (n=1051)

## Mudo a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Mae profiadau pobl ifanc o fyw yng nghefn gwlad Cymru a'u pryderon ynghylch dod o hyd i waith a thŷ yn bwydo i'w penderfyniadau ynghylch aros yn eu bro neu symud oddi yno. Credai mwy nag wyth o bob deg o ymatebwyr yr arolwg y byddai angen iddynt symud o'u hardal leol i gael gwaith, addysg, neu hyfforddiant, gyda dim ond 8% yn credu na fydd angen iddynt symud (Ffigur 26). Mae tai ychydig yn llai arwyddocaol fel ysgogwr allfudo, gydag ychydig o dan hanner yr ymatebwyr yn credu y bydd angen iddynt symud i ddod o hyd i dŷ addas, fforddiadwy, ac roedd ychydig o dan chwarter yn anghytuno (Ffigur 27).





Ffigur 26: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Credaf y bydd angen i mi symud o fy ardal leol i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant' (n=1052)




Ffigur 27: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Credaf y bydd angen i mi symud o fy ardal leol i ddod o hyd i dŷ fforddiadwy addas' (n=1051)

Mae'r argraff y bydd yn rhaid symud i ffwrdd i gael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant i'w gael yn weddol gyffredinol ar draws pob is-grŵp. Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg roi sgôr i'r datganiad ar raddfa o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf), a dyma'r cwestiwn yn yr arolwg lle roedd atebion wedi pwyso'n bennaf tuag at y categori 'cytuno'n gryf' (Ffigur 28). Mewn cyferbyniad, roedd ymatebion i'r datganiad 'Credaf y bydd angen i mi symud o fy ardal leol i ddod o hyd i dŷ addas, fforddiadwy' yn pwyso mwy tuag at yr opsiynau 'cytuno' (4) a 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' (3).





Ffigur 28: Y pwysoli gan ymatebwyr yr arolwg i atebion ar ddatganiadau yn ymwneud â mudo


Mae menywod ychydig yn fwy tebygol o feddwl y bydd angen iddynt symud i gael gwaith cyflogedig, addysg, neu hyfforddiant na dynion, ac nid yw'n syndod mai pobl ifanc rhwng 17 a 21 oed, sy'n cyd-redeg ag astudio yn y chweched dosbarth neu mewn prifysgol, sy'n fwy tebygol o gytuno nag ymatebwyr sy'n hŷn neu'n iau. Mae bron i naw o bob deg o'r ymatebwyr (88%) sy'n astudio yn y brifysgol ar hyn o bryd yn meddwl y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol i gael gwaith cyflogedig, addysg, neu hyfforddiant, ond felly hefyd mae 85% o ymatebwyr mewn mathau eraill o hyfforddiant, megis hyfforddiant galwedigaethol (Ffigur 29). Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr 22 oed neu hŷn yn llai tebygol o feddwl y byddai angen iddynt symud ar gyfer gwaith,

addysg, neu hyfforddiant, felly hefyd ymatebwyr mewn cyflogaeth – er, yn nodedig, roedd dau draean o'r ymatebwyr sy'n gweithio ar hyn o bryd yng nghefn gwlad Cymru yn dal yn meddwl y byddai angen iddynt symud i gael cyflogaeth, addysg, neu hyfforddiant.

Mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ychydig yn llai tebygol o feddwl y bydd angen iddynt symud i gael gwaith cyflogedig, addysg, neu hyfforddiant na siaradwyr rhugl ail iaith neu'r rheiny sy'n gallu rhywfaint o Gymraeg (ond nid ymatebwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl). Bychan yw'r gwahaniaethau daearyddol, gyda'r cyfrannau uchaf o ymatebwyr yn credu y bydd angen iddynt symud i ffwrdd yn Sir Benfro (87%) a Sir Fynwy (86%) a'r isaf yn Ynys Môn (77%) (Ffigur 30).





Ffigur 29: Ymatebion i'r datganiad 'Credaf y bydd angen i mi symud o fy ardal leol i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant' yn ôl statws cyfredol cyflogaeth/addysg (n=1052)




Ffigur 30: Ymatebwyr yr arolwg a gytunai y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant, yn ôl ardal awdurdod lleol.


Mae mwy o wahaniaeth yn ddaearyddol yn y canfyddiadau ynghylch tai fel rheswm dros allfudo a hyn yn adlewyrchu pryderon ynghylch gallu fforddio prynu tŷ yn yr ardal leol, fel yr adroddwyd yn yr adran flaenorol. Roedd cyfran ymatebwyr yr arolwg a gytunai y byddai angen iddynt symud o'u hardal leol i ddod o hyd i dŷ fforddiadwy addas yn amrywio o 62% yn Sir Benfro a 57% yn Sir Fynwy, i 43% yng Ngheredigion a 38% ym Mhowys (Ffigur 31). Yn wir, ym Mhowys, er bod 38% yn cytuno y byddai angen iddynt symud oddi yno i gael rhywle i fyw ynddo, anghytunai 34%, gwahaniaeth o 4% yn unig, tra fod y bwlch yn 41% yn Sir Benfro. Credai mwy na hanner yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn pentrefi neu gefn gwlad agored y byddai angen iddynt symud i ddod o hyd i dai fforddiadwy addas, o'i gymharu â 42% o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn trefi.





Ffigur 31: Ymatebwyr yr arolwg yn cytuno y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i ddod o hyd i dŷ fforddiadwy addas, yn ôl ardal awdurdod lleol.

Mae gwahaniaeth amlwg hefyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl statws cyfredol addysg neu gyflogaeth pobl ifanc. Mae llai na hanner yr ymatebwyr sydd ar hyn o bryd yn fyfyrwyr yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol yn meddwl y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i ddod o hyd i dŷ, o'i gymharu â mwy na hanner y rheiny sy'n gweithio ar hyn o bryd neu ddim mewn cyflogaeth, addysg, neu hyfforddiant, a bron i dri chwarter y rhai sy'n gwneud rhyw fath arall o hyfforddiant (Ffigur 32). Gall hyn ddangos bod meddwl am dŷ yn yr hirdymor yn bryder llai brys i bobl ifanc sy'n dal i astudio, neu gall adlewyrchu disgwyliadau am enillion yn y dyfodol, gyda'r rheiny sydd ar hyn o bryd naill ai'n cael neu'n rhagweld enillion is yn credu y byddant yn cael eu prisio allan o farchnadoedd tai gwledig.

Yn ddiddorol, o gofio'r pryderon mewn dadleuon cyhoeddus ynghylch y cysylltiadau rhwng fforddiadwyedd tai ac erydu ar y rhan fwyaf o gymunedau Cymraeg eu hiaith, mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ychydig yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i gredu y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol i ddod o hyd i dai fforddiadwy addas (Ffigur 33). Mewn cyferbyniad, roedd pobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg at ei gilydd mor debygol i anghytuno â'r datganiad y byddai angen iddynt symud ar gyfer tŷ ag yr oeddent i gytuno ag ef.





Ffigur 32: Ymatebion i'r datganiad 'Credaf y bydd angen i mi symud o fy ardal leol i ddod o hyd i dŷ fforddiadwy addas' yn ôl statws cyfredol cyflogaeth/addysg (n=1052)





Ffigur 32: Ymatebion i'r datganiad 'Credaf y bydd angen i mi symud o fy ardal leol i ddod o hyd i dŷ fforddiadwy addas' yn ôl gallu iaith (n=1052)

Mae canfyddiadau'r arolwg bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru ond bod y mwyafrif yn credu y bydd angen iddynt symud i ffwrdd er mwyn dod o hyd i waith neu rywle i fyw, neu i gael addysg neu hyfforddiant, o bosibl yn awgrymu bod pobl ifanc yn allfudo i ryw raddau yn anwirfoddol ac y byddai'r rhan fwyaf yn aros pe bai'r cyfleoedd iawn ar gael. Fodd bynnag, dim ond yn rhannol y mae'r dehongliad hwn yn cipio'r darlun llawn ac mae'n anwybyddu fod llawer o bobl ifanc yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru ond serch hynny *eisiau* symud oddi yno, o leiaf am gyfnod.

Pan ofynnwyd iddynt am eu dewisiadau ar gyfer lleoedd i fyw ynddynt, dim ond chwarter o ymatebwyr yr arolwg a gytunai y byddai'n well ganddynt fyw yn eu hardal leol drwy gydol eu hoes, o'i gymharu â hanner a oedd yn anghytuno (Ffigur 33). O ran y safbwynt cyferbyniol, nododd dau o bob pump o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt fyw mewn tref fawr neu ddinas, gyda chyfran debyg yn anghytuno (Ffigur 34). Nid oedd nifer fach o ymatebwyr, 8%, eisiau byw yn yr ardal leol drwy gydol eu hoes, ond hefyd nid oeddynt eisiau byw mewn tref fawr neu ddinas, a allai ddangos y byddai'n well ganddynt symud i ardal wledig wahanol.





Ffigur 33: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Byddai'n well gen i barhau i fyw yn fy ardal leol drwy gydol fy oes' (n=1052)





Ffigur 34: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Byddai'n well gen i fyw mewn dinas neu dref fawr' (n=1052)

Mae dewis aros yn eu bro yn cynyddu gydag oedran, gyda 38% o ymatebwyr 22 oed neu hŷn yn cytuno (yn bennaf am fod llawer o gyfoedion sy'n dymuno symud eisoes wedi gwneud hynny), o'i gymharu â 21% o rai 14-16 oed. Mae dynion ychydig yn fwy tebygol na menywod i fod eisiau aros yn yr ardal leol, felly hefyd ymatebwyr sy'n byw mewn cefn gwlad agored o'i gymharu â'r rheiny sy'n byw mewn pentrefi neu drefi. Mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod eisiau parhau i fyw yn yr ardal leol nag ymatebwyr eraill (Ffigur 35). Mae cryn amrywiadau daearyddol hefyd, gan y byddai'n well gan 57% o ymatebwyr yng Nghonwy aros yn yr ardal leol, ond 16% yn unig o ymatebwyr yn Sir Fynwy (Ffigur 36).





Ffigur 33: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Byddai'n well gen i barhau i fyw yn fy ardal leol drwy gydol fy oes' yn ôl gallu iaith (n=1051)




Ffigur 34: Ymatebion i'r arolwg yn dangos dymuniad i barhau i aros i fyw yn eu hardal leol, yn ôl sir


Roedd dewis byw mewn tref fawr neu ddinas ar ei uchaf ymysg pobl ifanc sy'n disgrifio eu hunain yn anneuaidd neu nad ydynt yn siŵr am eu rhywedd (49%), rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (48%) ac ymatebwyr sydd yn yr ysgol, chweched dosbarth neu goleg (45%). Ymatebwyr sy'n byw mewn cefn gwlad agored (26%), siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf (31%), a'r rheiny sydd mewn

mathau eraill o hyfforddiant (14%) sydd lleiaf tebygol o ddweud y byddai’n well ganddynt fyw mewn tref fawr neu ddinas. Mae rhaniad amlwg rhwng y gogledd a’r de hefyd, gyda thua hanner yr ymatebwyr yng Ngheredigion, Sir Fynwy a Sir Benfro yn dweud y byddai’n well ganddynt fyw mewn tref fawr neu ddinas, o’i gymharu â thua chwarter yng Nghonwy a Sir Ddinbych (Ffigur 37).





Ffigur 35: Ymatebion i’r cwestiwn yn yr arolwg a fyddai’n well ganddynt fyw mewn dinas neu dref fawr, yn ôl sir

Gellir cyfuno ffigurau’r arolwg ar ddewisiadau a disgwyliadau mudo i gynhyrchu trosolwg cynilach o symudedd posibl pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, fel y dangosir yn Ffigur 36. Dim ond 6% o bobl ifanc a fyddai’n dewis aros yn eu hardal leol yn ogystal â pheidio meddwl y bydd angen iddynt symud oddi yno i gael gwaith, addysg, neu rywle i fyw. Mae 4% arall yn teimlo’n niwtral ynghylch aros yn ardal eu cartref, ond yn yr un modd nid ydynt yn meddwl y bydd angen iddynt symud oddi yno. Gyda’i gilydd mae’r rhain yn ffurfio grŵp o ‘**arhoswyr tebygol**’ sef un ym mhob deg o bobl ifanc sydd ar hyn o bryd byw yng nghefn gwlad Cymru. Ar y pegwn arall, nid yw hanner ymatebwyr yr arolwg eisiau aros yn eu hardal leol, gan ffurfio grŵp o ‘**ymadawyr awyddus’**. Yn ddelfrydol byddai’n well gan tua dau draean o’r rhain (neu draean o’r sampl cyfan) fyw mewn dinas neu dref fawr. Yn y canol mae pobl ifanc a fyddai’n well ganddynt aros ym mro eu mebyd ond yn credu y bydd angen iddynt symud ar gyfer gwaith, addysg ac/neu rywle i fyw. Mae’r rhain yn cynnwys tua 22% o ymatebwyr yr arolwg a gellid eu disgrifio fel ‘**ymadawyr cyndyn’**. Gan y byddent yn debygol o ddewis aros ym mro eu cartref petai’r cyfleoedd priodol ar gael, maent yn ffurfio grŵp arall o ‘**arhoswyr posibl**’ ynghyd â’r 19% o’r sampl sy’n niwtral ynghylch aros yn ardal eu cartref ond sy’n teimlo y bydd angen iddynt symud i gael gwaith, addysg neu rywle i fyw. Os yw ymatebwyr yr arolwg yn gynrychioladol o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru gyfan, mae cyfanswm cronfa’r ‘arhoswyr posibl’ tua 41,000 o bobl ifanc, sydd ar hyn o bryd yn debygol o symud o’u hardal leol ond a allai aros pe bai amodau priodol yn cael eu creu.





Ffigur 35: Model symudedd posibl pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru (% o ymatebwyr yr arolwg, n = 1045)

Mae grŵp gweddol fawr yr 'ymadawyr cyndyn', neu o leiaf 'arhoswyr posibl', hefyd i'w weld yn y ffaith eu bod yn agored i ddychwelyd i'w hardal leol yn ddiweddarach yn eu bywyd, ond mae'r ymdeimlad hwn hefyd yn ymestyn i rai yn dweud y byddai'n well ganddynt fyw mewn dinas neu dref fawr, gan efallai awgrymu bod llawer o bobl ifanc eisiau profiad o fyw mewn tref ond nid o reidrwydd fel ymrwymiad gydol oes. Cytunai dros hanner o holl ymatebwyr yr arolwg (57%) petaent yn symud o'u hardal leol y byddent yn hoffi symud yn ôl yn ddiweddarach yn eu bywyd, gyda dim ond 18% yn anghytuno (Ffigur 36). Mae hyn yn cynnwys 37% o'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn dinas neu dref fawr, yn ogystal â 92% o'r grŵp 'arhoswyr posibl'. Mae myfyrwyr presennol yn y brifysgol yn fwy tebygol i gytuno (51%) na'r rheiny mewn ysgol neu goleg AB (50%), ac mae ymatebwyr yn y Gogledd a'r de-orllewin yn fwy tebygol o fod eisiau symud yn ôl petaent yn symud oddi yno na'r rheiny yn y Canolbarth neu Sir Fynwy (Ffigur 37). Mae dros ddau draean siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn bwriadu symud yn ôl yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn symud i ffwrdd (68%), ond mae llai na thraean yr ymatebwyr heb Gymraeg yn cytuno â hyn (31%).





Ffigur 36: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad 'Os symudaf o fy ardal leol hoffwn symud yn ôl yn ddiweddarach yn fy mywyd' (n=1054)




Ffigur 37: Ymatebwyr yr arolwg a ddywedodd y byddent yn hoffi symud yn ôl i'r ardal leol petaent yn symud i ffwrdd, yn ôl sir

Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg hefyd beth y credent y byddant mewn gwirionedd yn ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf, a'r cwestiwn hwn am ganolbwyntio ar gynlluniau mwy pendant yn hytrach na'r dyheadau a phryderon a gasglwyd yn y cwestiynau a drafodir uchod. Dim ond 18% o ymatebwyr a gredai y byddent yn parhau i fyw yn eu hardal leol drwy gydol y

pum mlynedd nesa, gyda dau draean yn meddwl y byddent yn symud oddi yno (atebodd tua chweched o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod). Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a ddywedodd y byddent yn symud i ffwrdd yn credu y byddent yn gadael Cymru, gyda niferoedd llai yn rhagweld symud i ddinasoedd neu drefi mawr yng Nghymru, neu i leoedd eraill yng nghefn gwlad Cymru (Ffigur 38).




Ffigur 38: Ymatebion i'r arolwg ar y mudo a ragwelir yn y pum mlynedd nesaf (n = 1055)

Roedd cyfanswm o 42% o'r bobl ifanc a lanwodd yr arolwg yn meddwl y byddent yn symud tu allan i Gymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys bron i draean (32%) o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â thuedd ehangach o bobl ifanc net yn mudo allan o Gymru, a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021.[8] Symud o Gymru oedd y sefyllfa a ddewiswyd amlaf gan ymatebwyr ym mhob ardal awdurdod lleol, er bod y niferoedd yn amrywio o tua thraean o ymatebwyr yn Sir Ddinbych a Sir Benfro, i bron i hanner yn Sir Fynwy ac Ynys Môn (Tabl 3). Mae cryn nifer o bobl ifanc yn ne Cymru yn rhagweld symud i ddinas neu dref fawr yng Nghymru – gan gynnwys 30% o ymatebwyr yn Sir Benfro – sy'n adlewyrchu agosrwydd at Gaerdydd ac Abertawe, tra mai ychydig o ymatebwyr yn unig yn y Gogledd a ystyriai'r opsiwn hwn, a'r rhain yn fwy tebygol o ragweld symud i ran arall o Gymru wledig, er enghraifft i brifysgol ym Mangor neu Aberystwyth.


Mae cydberthynas ragweladwy rhwng y disgwyliadau hyn a'r categoreiddio ar ymatebwyr yn grwpiau o 'arhoswyr tebygol', 'arhoswyr posibl' ac 'ymadawyr awyddus'. Credai mwy na dau draean o arhoswyr tebygol y byddant yn dal i fyw yn eu hardal leol ymhen pum mlynedd, gyda 15% arall yn rhagweld symud rywle arall yng nghefn gwlad Cymru. Dim ond 7% o'r grŵp hwn oedd o'r farn y byddent yn symud o gefn gwlad Cymru yn ystod y pum mlynedd nesaf (Ffigur 39). Ar y llaw arall, mae dau draean o 'ymadawyr awyddus' yn meddwl y byddant yn symud tu allan i Gymru, gyda 18% arall yn rhagweld symud i ddinas neu dref yng Nghymru. Mae llai nag un mewn ugain yn credu y byddant yn dal yn byw yn eu hardal leol ymhen pum mlynedd. Mae'r grŵp 'arhoswyr posibl' yn fwy rhanedig, gyda bron i draean yn meddwl y byddant yn parhau i fyw yn eu hardal leol, a dim ond 35% yn disgwyl symud y tu allan i Gymru wledig. Fel y cyfryw, awgryma'r

[8] Rhaid cadw pobl ifanc Cymru os am well ddyfodol, BBC Cymru Fyw,

ffigurau hyn fod pryderon ynghylch angen symud ar gyfer tai, addysg neu waith yn rhai hirdymor, ac y bydd llawer o unigolion sydd â'r pryderon hyn serch hynny yn debygol o ddod o hyd i ffyrdd o aros yn eu hardal leol yn y dyfodol agos.


| | Yn ystod y pum mlynedd nesaf ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n.... | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Parhau i fyw yn eich ardal leol | Symud tu allan i Gymru | Symud i ddinas neu dref fawr yng Nghymru | Symud rywle arall yng nghefn gwlad Cymru | Ddim yn gwybod |
| Sir Gaerfyrddin | 17% | 41% | 18% | 8% | 16% |
| Ceredigion | 14% | 45% | 18% | 7% | 17% |
| Conwy | 29% | 37% | 10% | 10% | 14% |
| Sir Ddinbych | 26% | 32% | 5% | 18% | 19% |
| Gwynedd | 20% | 38% | 9% | 11% | 22% |
| Ynys Môn | 18% | 48% | 8% | 13% | 12% |
| Sir Fynwy | 16% | 49% | 17% | 4% | 14% |
| Sir Benfro | 16% | 34% | 30% | 2% | 18% |
| Powys | 15% | 45% | 17% | 7% | 16% |
| **Yr holl ymatebwyr** | **18%** | **42%** | **18%** | **9%** | **17%** |

Tabl 3: Mudo a ragwelir yn y 5 mlynedd nesaf gan ymatebwyr yr arolwg, yn ôl ardal awdurdod lleol.




Ffigur 39: Mudo a ragwelir yn ystod y pum mlynedd nesaf yn ôl grŵp

Mae disgwyliadau pobl ifanc yn ymwneud â mudo yn anochel yn gysylltiedig agos â phenderfyniadau ynghylch addysg uwch. Mae dros 70% o ymatebwyr yr arolwg sy'n 17 neu 18 oed, a thros 60% o'r rheiny rhwng 14 ac 16 oed, yn disgwyl symud o'u hardal leol yn ystod y pum mlynedd nesaf ac yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn er mwyn astudio mewn prifysgol. Drwyddi draw, roedd o leiaf traean o'r ymatebwyr a ddisgwyliai symud tu allan i Gymru wedi rhoi'r rheswm 'mynd i brifysgol', ynghyd â chyfran debyg o ymatebwyr yn rhagweld symud i ddinas yng Nghymru, neu symud o fewn cefn gwlad Cymru. O ymatebwyr yr arolwg sydd ar hyn o bryd yn fyfyrwyr amser llawn mewn addysg uwch, mae ychydig dros eu hanner mewn prifysgol yng Nghymru neu'n astudio o gartref yng nghefn gwlad Cymru (52%), mae 45% mewn prifysgol yn Lloegr, ac mae tua 2% mewn prifysgolion yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r Unol Daleithiau (Ffigur 40).




Ffigur 40: Man preswylio yn ystod y tymor y cyfranogwyr hynny yn yr arolwg sy'n astudio Addysg Uwch yn llawn amser i ffwrdd o gartref. Cylchoedd bychain = 1 unigolyn. Niferoedd mwyaf, Caerdydd = 28 ymatebwyr. Map Sylfaen: ESRI.

Er bod rhai ymatebwyr wedi nodi eu bod yn bwriadu mynd i Brifysgol Aberystwyth neu Bangor er mwyn aros yn agos i gartref, roedd cyfranogwyr yn amlach yn disgrifio eu penderfyniad i ddewis prifysgol mewn dinas er mwyn cael profiad o fywyd trefol. I un ymatebydd yn y Gogledd o leiaf, mae hynny'n golygu gadael Cymru gan fod prifysgolion yng ngogledd-orllewin Lloegr yn haws eu cyrraedd na'r rheiny yn ne Cymru:

> Dwi'n caru Cymru ond dydw i erioed wedi gallu profi bywyd mewn dinas fawr ddisglair. Mae Caerdydd wrth gwrs ond dwi'n meddwl y buaswn i'n hoffi mynd i ddinas ychydig yn nes at adref gan mai dyma fyddai fy nhro cyntaf i'n byw mewn rhywle arall. Mae Caerdydd yn llawer pellach i mi na Chaer neu Fryste. (15 oed, Gwynedd)

Yn amlach, esboniai ymatebwyr ddewisiadau i fynd i brifysgol yn Lloegr mewn perthynas â'r dewis o gyrsiau, y cyfleoedd ar ôl graddio, neu argraff eithaf eang nad oedd prifysgolion yng Nghymru o safon mor uchel, a rhai wedi awgrymu fod ysgolion yn ategu hyn:

> Mae fy ysgol yn ein hannog tuag at brifysgolion yn Lloegr fel Durham, Rhydychen a Chaergrawnt, does dim llawer yn cael ei drafod am brifysgolion Cymru na'r cyfleoedd sydd ynddynt. (15 oed, Sir Fynwy)

Mae rhagweld symud y tu allan i Gymru hefyd yn cael ei fynegi'n aml drwy gyfeirio at argraff fod cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd cyfyngedig yng Nghymru:

> Mae mwy o gyfleoedd ar gyfer fy ngyrfa mewn dinasoedd mwy o faint y tu allan i Gymru. (16 oed, Powys)

> Mae Cymru'n teimlo'n fach iawn i rywun sydd am gael profiad o fyw mewn dinas fwy yn y brifysgol. Teimlaf hefyd y bydd gennyf fynediad at ystod ehangach o ddewisiadau gyrfa mewn llefydd eraill. (17 oed, Sir Gaerfyrddin)

> Yn anffodus, oherwydd y cynnydd ym mhrisiau tai a diffyg gyrfaoedd sy'n talu'n dda yn lleol, rwy'n gallu gweld fy hun yn symud i ddinas fel Lerpwl neu Fanceinion er mwyn dod o hyd i waith. Byddai'n well gen i aros yn lleol, ond mae'n ansicr a fydd hynny'n economaidd bosibl. (16 oed, Ynys Môn)

> Rwy'n credu y byddai dinas yn Lloegr yn rhoi mwy o gyfleoedd a chysylltiadau i mi â'r byd ehangach yn fy nyfodol. Byddwn yn hoffi symud i Lundain a chael profiad o fywyd prysur a gwefreiddiol yn hytrach na bywyd ar dref glan môr. (17 oed, Sir Benfro)

Soniodd ambell un o'r ymatebwyr di-Gymraeg yn benodol am eu diffyg Cymraeg fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar eu cyfleoedd swyddi yng Nghymru. Cyfeiriodd nifer fechan at ganfyddiadau o homoffobia, hiliaeth, neu mewn ambell achos, ymdeimlad gwrth-Seisnig, fel ffactorau sy'n eu gwthio i symud o Gymru. Dywedodd rhai eu bod yn cynllunio symud i Loegr er mwyn cysylltu â chymunedau LGBT+ mwy o faint a mwy o gyfleoedd cymdeithasol:

> Mae lleoedd eraill yn fwy cyfleus ar gyfer cymudo + rhagor o wasanaethau cyhoeddus + addysg well + diwylliannau mwy amrywiol + llai o homoffobia + llai o hiliaeth. (16 oed, Powys)

> Rwyf eisiau symud i Fanceinion achos mae 'na brifysgolion da yno, fflatiau rhad ac mae jest yn lle braf yn gyffredinol. Mae Cymru mor homoffobig ac yn gwrthod derbyn. (14 oed, Conwy)

> Dod o hyd i gyfleoedd am swydd/gyrfa a mwy o gyfleoedd cymdeithasol (yn enwedig cwrdd â phobl eraill LGBTQ+) (20 oed, Sir Gaerfyrddin)

Heblaw am gymharu cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd, i rai pobl ifanc mae'r gobaith o symud o gefn gwlad Cymru yn deillio'n syml o awydd i brofi diwylliannau a phethau gwahanol, mewn rhai achosion gyda disgwyliad hirdymor o ddychwelyd:

> Ar ôl ysgol, byddwn yn hoffi mynd i brifysgol y tu allan i Gymru (yn dal yn y DU) er mwyn cael profiad o amgylcheddau newydd, cwrdd â phobl newydd, a byw mewn ardal fwy canolog. (14 oed, Gwynedd)
>
> Byddwn yn hoffi archwilio llefydd nad ydw i'n eu nabod a dysgu o amgylcheddau newydd, er fy mod yn debygol o ddychwelyd i fyw yng Ngogledd Cymru ryw ddiwrnod. (16 oed, Gwynedd)
>
> Rwy'n mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru ond fi moyn gweld mwy o'r byd cyn i mi ddod adref. (16 oed, Sir Benfro)
>
> Eisiau profi gwahanol ddiwylliannau. (15 oed, Sir Benfro)
>
> Hoffwn deithio a chael profiad o fywyd tu fas i fy ardal leol. (16 oed, Ceredigion)

Dywedodd 16 o ymatebwyr yn benodol eu bod yn cynllunio neu yr hoffent symud y tu allan i'r DU yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mynegodd nifer o ymatebwyr ddisgwyliad y byddai mynd i brifysgol yn Lloegr yn golygu aros yno ar ôl graddio. Ategir y dybiaeth hon i ryw raddau gan ymatebion myfyrwyr presennol a graddedigion diweddar gan fod llawer ohonynt wedi dweud eu bod yn bwriadu aros yn y ddinas neu'r rhanbarth lle buont yn astudio, yn rhannol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth, ond hefyd oherwydd eu bod wedi datblygu perthynas â'r ddinas, neu oherwydd fod eu ffrindiau bellach yn bennaf yn Lloegr. Dim ond 15% o fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd mewn addysg uwch sy'n meddwl y byddant yn dal i fyw yn ardal eu cartref dros y pum mlynedd nesaf neu ddychwelyd yno a hanner ohonynt o'r farn y byddant yn symud tu allan i Gymru (gan gynnwys myfyrwyr yn aros yn eu dinas brifysgol ar ôl graddio). Eglurai unigolion eu cynlluniau mewn cysylltiad â chyfleoedd cyfyngedig yn ardal eu cartref a'r amgyffrediad fod mwy o gyfleoedd y tu allan i Gymru:

> Prin yw'r swyddi i bobl ifanc yn fy ardal leol a bron dim cyfleoedd i ddechrau swydd a allai droi'n yrfa. Rwy'n teimlo fel petawn wedi mynd yn angof, pan es i weld teulu mewn dinas fawr cefais fy syfrdanu gan faint o gyfleoedd a dewis oedd yno i bobl ifanc, swyddi /addysg / meithrin hobïau + cymuned, a chludiant hygyrch i gyrraedd yno hefyd. Bydd yn rhaid imi ddechrau fy ngyrfa yn Lloegr, fwy na thebyg Llundain, Manceinion neu Fryste gan mai nhw yw'r prif ddinasoedd ar gyfer swyddi yn y pwnc rwy'n ei astudio yn y brifysgol ac ar gyfer beth rwyf eisiau ei wneud am weddill fy mywyd. Er fy mod mewn cariad â'r iaith Gymraeg a'm treftadaeth teimlaf fy mod yn cael fy ngwthio allan o Gymru os ydw i eisiau gwneud yn dda drosof fy hun mewn bywyd. (20 oed, Powys)
>
> Rwyf wrth fy modd â'r man lle cefais fy magu, sydd ychydig y tu allan Aberystwyth. Fodd bynnag, does dim digon o gyfleoedd cyflogaeth o gwbl yma. Hoffwn symud y tu allan i'r DU yn y dyfodol. (23 oed, Ceredigion)
>
> Mae fy mywyd cymdeithasol gartref yn eithriadol o gyfyng ac mae'r cyfleoedd cyflogaeth i raddedigion yn brin iawn. (21 oed, Gwynedd)

> Dwi'n teimlo fod yna lawer mwy o gyfleoedd swyddi yn Lloegr a dwi eisoes yn astudio ac yn byw yn Lloegr yn rhan amser felly dyna be dwi wedi arfer ag o. Dwi hefyd wedi gweld bod gan ardaloedd gwledig yn Lloegr fwy o wasanaethau a chyfleoedd nag ardal wledig yng Nghymru. (19 oed, Powys)

> Ar ôl bod i brifysgol y tu allan i Gymru, mae'r rhan fwyaf o fy ffrindiau yn byw yn Lloegr. Oherwydd y cyfleoedd cymdeithasol prin gartref yn enwedig ac yng Nghymru yn gyffredinol, byddaf yn llawer hapusach mewn rywle arall am y tro. Yn y pen draw hoffwn symud yn ôl i Gymru, ond mae'n debyg i ganolfan drefol yn gyntaf i allu cael gwell gwaith a chael cylchoedd cymdeithasol mwy amrywiol. (21 oed, Ceredigion)

Roedd llawer yn benodol yn rhagweld y byddai angen iddynt symud tu allan i Gymru er mwyn dod o hyd i gyflogaeth briodol ar lefel graddedigion yn y meysydd y maent wedi'u hastudio neu yrfaoedd arfaethedig, gyda meysydd megis peirianneg, cyfrifiadureg a'r diwydiannau creadigol yn cael eu crybwyll yn aml:

> Dwi'n astudio meddygaeth yn Lerpwl. Dwi'n credu bod y rhagolygon gyrfa a'r opsiynau hyfforddi ar ôl graddio yn well yn Lloegr. (22 oed, Sir Ddinbych)

> Rhaid i mi symud i Lundain i gael cyfleoedd gwaith yn y diwydiant actio. Dyma'r peth olaf rwyf am ei wneud. Byddwn yn byw yng Nghymru ar hyd fy mywyd cyfan pe gallwn. Mae gan Aberystwyth gymuned theatr anhygoel sydd angen cyllid a chefnogaeth arni. (22 oed, Powys)

> Prin iawn yw'r cyfleoedd swyddi i fi yng Nghymru, dwi'n astudio Celf Gêmau a dwi eisiau gweithio mewn stiwdio gêmau. (19 oed, Ynys Môn)

> Pan fyddaf yn gorffen fy ngradd fwy na thebyg fydda i ddim yn gallu dod o hyd i waith yng Nghymru oherwydd natur fy swydd. (21 oed, Sir Benfro)

> Cyn bo hir byddaf yn athro ysgol gynradd cymwysedig ond, oherwydd nad ydw i'n siarad digon o Gymraeg sylfaenol hyd yn oed ar gyfer ysgol gynradd Saesneg, fyddaf i ddim yn gallu gweithio yng Nghymru. (23 oed, Powys)

> Hoffwn weithio ym maes ymchwil iechyd a geneteg felly bydd yn rhaid i mi fynd lle mae swyddi a chyllid – pan edrychais yn y gorffennol prin iawn oedd y cyfleoedd yng Nghymru. (22 oed, Ynys Môn)

> Mae gen i radd Bioleg ac rydw i am ei defnyddio ond yn ei chael yn anodd iawn dod o hyd i swyddi technegwyr yn fy ardal i. (21 oed, Powys)

> Ar ôl graddio'n ddiweddar o'r brifysgol gyda gradd dda dwi'n awyddus i ddechrau gyrfa … Ar ôl bod yn chwilio am swyddi i raddedigion dwi wedi dod i sylweddoli os dwi eisiau dod o hyd i yrfa dda mewn bron unrhyw faes rhaid i fi symud o'r Gogledd, sy'n rhywbeth gwirioneddol drist i mi. (22 oed, Gogledd Cymru)

> Does dim swyddi yn y maes hwn ar gyfer y maes rwyf wedi graddio ynddo. Ar hyn o bryd rwy'n aros gyda fy rhieni ac yn gweithio mewn swydd dros dro i gael dau ben llinyn ynghyd wrth chwilio am rywbeth mwy parhaol. Yn anffodus, mae hyn yn debygol o fod y tu allan i Gymru. (23 oed, Sir Benfro)

Ymatebwyr sydd mewn gwaith ar hyn o bryd yw'r grŵp sy'n fwyaf tebygol o aros yn eu hardal leol, gyda 30% yn meddwl y byddant yn parhau i fyw yn eu hardal leol dros y pum mlynedd nesaf, ond mae hanner serch hynny yn credu y byddant yn symud yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys 29% sy'n rhagweld symud y tu allan i Gymru. Mae sylwadau gan ymatebwyr unigol yn dangos fod yr ymatebwyr hyn yn tueddu i fod mewn swydd nad yw yn eu dewis faes, neu eu bod

yn teimlo bod angen iddynt symud er mwyn datblygu eu gyrfaoedd yn eu proffesiwn neu ddiwydiant:

> Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r yrfa rydw i wedi'i dewis (celf cysyniadau ar gyfer ffilmiau, teledu, gêmau fideo ac ati) gan nad oes ganddi fawr / dim presenoldeb yng Nghymru ar wahân i rai cysylltiadau diwydiant bach mewn llefydd fel Caerdydd. Er bod yn rhaid imi ychwanegu pe bawn yn gallu datblygu'r yrfa hon yn hunangyflogedig, byddwn yn ailystyried fy ateb i'r cwestiwn hwn. (25 oed, Powys)
>
> O ran y maes gwaith rwy'n gweithio ynddo, gwelaf fod mwy o gyfleoedd y tu allan i Gymru. (24 oed, Hunangyflogedig, Sir Fynwy)
>
> Diffyg rhagolygon gyrfa yma; bydd angen i mi adael er mwyn symud ymlaen yn fy ngyrfa. (25 oed, Gwynedd)
>
> Mae llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer fy math o waith yn Lloegr. (23 oed, Sir Benfro)
>
> Nid yw Cymru wledig yn cynnig y cyfleoedd sydd ei angen arnaf i fynd ymhellach yn fy ngyrfa. (25 oed, Powys)
>
> Mae'r cyfleoedd yng Nghymru yn brin, mae gan y sector adnewyddadwy rwy'n gweithio ynddo lawer mwy o opsiynau os symudaf allan o Gymru. Rwyf wedi mwynhau fy swydd yn Sir Benfro ond does dim llawer i'w wneud i gwrdd â phobl ifanc. (23 oed, Sir Benfro)
>
> Does dim cyfleoedd swyddi yng Nghymru ar gyfer y maes arbenigol rwyf i wedi fy hyfforddi ynddo. (24 oed, Ynys Môn)
>
> Symud i ffwrdd i ddatblygu fy ngyrfa a dod o hyd i swydd sy'n talu'n well yn y diwydiant morol. (23 oed, Gwynedd)

Pobl ifanc rhwng 22 a 25 oed serch hynny yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o aros ym mro eu mebyd ac i lawer mae hyn yn adlewyrchu penderfyniad ymwybodol i aros neu ddychwelyd a phroses o 'setlo i lawr', wedi dod o hyd i swydd briodol, buddsoddi mewn tŷ, ac/neu wedi ymrwymo i bartner:

> Mae fy mhartner am aros lle rydyn ni oherwydd ei swydd. (21 oed, Ceredigion)
>
> Gan fy mod wedi prynu tŷ drwy'r cynllun tai fforddiadwy fydda i ddim yn symud yn fuan. Well gen i fyw yng nghefn gwlad. (24 oed, Sir Gaerfyrddin)
>
> Rwy'n gweithio yn y maes cyfieithu felly mae llawer o gyfleoedd swyddi i mi yn lleol. Mae'n well gen i hefyd fyw mewn ardal wledig Gymraeg ei hiaith. (23 oed, Gwynedd)
>
> Rwyf wedi prynu tŷ gyda fy nghariad yn ddiweddar ar Ynys Môn. Symudais o ardal Wrecsam i fyw yma ac rwyf wrthi'n dysgu Cymraeg. Rwy'n mwynhau byw yma ond mae'r opsiynau ar gyfer swyddi wedi'u lleihau'n aruthrol. Rwy'n gweithio o gartref ar hyn o bryd felly rwy'n chwilio am ddewisiadau eraill tebyg. (23 oed, Ynys Môn)
>
> Mae gen i gynlluniau i aros yng nghefn gwlad Cymru a gwella'r ardal drwy greu busnesau a swyddi newydd. (21 oed, Powys)
>
> Gan fod gen i swydd sefydlog bellach, fydda i ddim yn symud oddi yma. (25 oed, Conwy)

Yn groes i'r llwybr a ragwelir gan lawer o bobl ifanc, mae'r 'arhoswyr' hŷn yn cynnwys unigolion a ddaeth i brifysgol mewn trefi megis Aberystwyth neu Fangor o du allan i gefn gwlad Cymru ac wedi aros yno ar ôl graddio:

> Ar y dechrau mi es i brifysgol ar ôl byw ar hyd fy oes yn Llundain. Mi arhosais. (24 oed, Ceredigion)
>
> Mi wnes i astudio cadwraeth cefn gwlad ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ers hynny rwyf wedi dod o hyd i waith yn y sector hwn yn Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn. Rwy'n bwriadu byw a gweithio yn y rhan hon o Gymru am beth amser os bydd y swydd yn parhau. (24 oed, Ceredigion)

I ymatebwyr iau sy'n bwriadu aros yn eu hardal leol, mae aros yn aml wedi'i gysylltu â pheidio â mynd i brifysgol a dod o hyd i waith yn lleol, gan gynnwys mewn rhai achosion ymrwymiad i fynd i ffermio:

> Rwy'n mynd i fy mlwyddyn gyntaf yn y coleg a hoffwn aros yn yr ardal tra mod i'n gwneud cymhwyster i fod yn drydanwr ac aros yno wedyn hefyd. Rwy'n adnabod yr ardal yn dda ac yn adnabod llawer o bobl a allai fod yn gwsmeriaid posibl. (16 oed, Sir Gaerfyrddin)
>
> Achos mod i'n dod o deulu ffermio, a fi sy'n debygol o fod y genhedlaeth nesaf fydd yn berchen ar y fferm. (16 oed, Gwynedd)
>
> Achos dyma lle ces i fy magu ac os bydd swydd yn agos bydda i'n manteisio ar y cyfle i wneud beth bynnag sydd o fewn fy ngallu er mwyn cynilo arian a phrynu tŷ yn ymyl fy nheulu. (15 oed, Gwynedd)
>
> Mae 'da fi swydd a sa i moyn mynd i brifysgol eto achos sa i'n siŵr beth wy moyn gwneud 'da mywyd. (17 oed, Sir Benfro)
>
> Rwy'n gobeithio parhau i fyw a gweithio ar y fferm. (21 oed, Ceredigion)
>
> Rydw i wedi dechrau prentisiaeth ers tair blynedd mewn garej leol sy'n adfer HGV ac yn cynllunio aros yno a chael fy hyfforddi'n llawn ac ennill fy nghymhwyster lefel 3. (17 oed, Powys)

Yn yr un modd, roedd rhai ymatebwyr wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i astudio mewn coleg lleol neu o gartref ar-lein er mwyn aros yn eu bro:

> Byddaf yn mynd i'r coleg heb fod yn rhy bell i ffwrdd a fydda i ddim yn gadael adre. (17 oed, Ynys Môn)
>
> Rwy'n byw gyda fy rhieni wrth wneud fy ngradd felly does dim angen i mi symud. Rwy'n poeni os wyf moyn mynd ymhellach e.e. gwneud gradd meistr neu PhD bydd angen i mi symud oddi yma oherwydd does unman y gallwn ei wneud yn ddigon agos i mi fyw gartref, ond sa i'n bwriadu gwneud hynny yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Sa i moyn byw yn unman arall heblaw yma, mae bod mewn trefi a dinasoedd yn straen mawr arna i a byddai gormod o hiraeth 'da fi am gefn gwlad. (19 oed, Sir Benfro)
>
> Oherwydd, ar hyn o bryd, fyddaf i ddim yn mynd i'r brifysgol ac felly byddaf yn dal i fyw gartref a gweithio'n rhan amser gan fy mod yn gwneud cymwysterau ar-lein. (17 oed, Powys)

Gall mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a gyrfa fod yn rheswm dros symud o fewn cefn gwlad Cymru, gan gynnwys symud o ardaloedd gwledig mwy anghysbell i fod yn agosach at drefi mwy o faint megis Aberystwyth neu Bangor:

> Hoffwn fyw mewn ardal wledig nad yw'n bell o dref er mwyn i mi gael gwell cyfleoedd cymdeithasol a gwaith. (21 oed, Conwy)
>
> Dwi'n awyddus i fyw mewn cymuned wledig Gymraeg, ond byddai dod o hyd i swydd addas sy'n talu'n dda yn y diwydiant amaethyddol a gwledig yn golygu y byddwn yn gorfod symud o fy ardal leol. (21 oed, Conwy)

> Dwi'n meddwl y bydd yn debygol y bydd yn rhaid i mi symud o gefn gwlad lle dwi'n byw i dref fwy, h.y. Aberystwyth, i wneud yn siŵr fy mod i am fy mhartner yn gallu dod o hyd i waith o fewn pellter cymudo rhesymol. (22 oed, Powys)

Mynegodd ambell ymatebydd fodd bynnag fwriad i symud i leoliad gwledig *mwy anghysbell*, gan gynnwys er enghraifft, unigolyn sy'n byw mewn pentref yn ardal Castell-nedd Port Talbot yn dweud eu bod "eisiau byw yn rhywle mwy gwledig fel y gallaf ddechrau fy fferm gymunedol fy hun yn ogystal â bod yn athro".


Cyfeirir at dai hefyd fel rheswm dros symud o fewn cefn gwlad Cymru, yn ogystal â symud oddi yno yn llwyr. Yn gyffredinol, crybwyllwyd tai yn llai aml gan ymatebwyr fel esboniad am eu symudedd tebygol dros y pum mlynedd nesaf na chyflogaeth neu addysg. Soniwyd am argaeledd tai fforddiadwy gan gryn nifer o ymatebwyr fel ffactor pam roeddent yn disgwyl symud o'u hardal leol ond yn anaml y cael ei roi i gyfiawnhau symud *i* ardal benodol. Ac eithrio un ymatebydd a ddywedodd y byddent yn symud i Gaer gan fod eiddo yn rhatach yno nag yn eu cymuned wledig yn y Gogledd, tueddai'r ychydig enghreifftiau i gynnwys symudiadau o fewn cefn gwlad Cymru, gan gynnwys symud allan o ardaloedd twristaidd poblogaidd ac ardaloedd gwledig mwy hygyrch sydd â phrisiau eiddo uwch i ardaloedd gwledig mwy anghysbell sydd â phrisiau tai is:

> Byddwn yn hoffi symud i leoliad mwy gwledig yn y Gogledd. Mae fy ardal leol yn boblogaidd efo twristiaid ac felly mae'n brysur yma ac mae tai yn anfforddiadwy. (22 oed, Sir Ddinbych)
>
> Mae eiddo yn fy ardal yn ddrud iawn ac yn gwthio teuluoedd incwm isel fel fy un i i'r cyrion. Hefyd does yna ddim gymaint â hynny o gyfleoedd swyddi yn fy maes gwaith. (19 oed, Sir Fynwy)

Mewn cyferbyniad â phryder eang pobl ifanc y bydd angen iddynt adael eu bro i ddod o hyd i dŷ addas, fforddiadwy, roedd nifer fach o ymatebwyr wedi rhoi tai yn rheswm dros pam y byddent yn disgwyl aros yn eu hardal leol dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys methu â fforddio symud o gartref y teulu, rhagweld etifeddu eiddo, ac mewn un achos y datganiad, "Rydw i'n sylweddoli mai'r unig dŷ y byddaf yn gallu ei fforddio yw un yng nghefn gwlad Cymru" (19 oed, Powys).

## Ymyriadau Polisi Posibl

Mae grŵp sylweddol yr 'arhoswyr posibl' a nodwyd gan yr arolwg – sef y bobl ifanc y byddai'n well ganddynt aros yng nghefn gwlad Cymru, neu o leiaf yn niwtral ynghylch aros, ond o'r farn y bydd angen iddynt symud oddi yno i gael cyflogaeth, addysg neu rywle i fyw – yn dangos bod cyfle i ymyriadau polisi wneud gwahaniaeth o ran lleihau allfudo ymysg pobl ifanc. Gofynnodd yr arolwg i gyfranogwyr ystyried newidiadau posibl a fyddai'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn aros i fyw yn eu hardal leol, neu ddychwelyd ar ôl astudio, a dewis newidiadau o restr a roddwyd iddynt, gyda modd iddynt ddewis sawl opsiwn. Fel y dengys Ffigur 41, nid oes un ateb syml a fyddai ynddo'i hun yn gostwng allfudo'n sylweddol, ond byddai cyfleoedd swyddi gwych sy'n berthnasol i yrfaoedd arfaethedig, gwell cysylltiadau trafnidiaeth i ddinasoedd a threfi mwy o faint, mwy o gyfleusterau adloniant a hamdden, swyddi sy'n talu'n well, a mwy o dai fforddiadwy oll yn gwneud gwahaniaeth i dros hanner yr ymatebwyr. Dim ond 3% o ymatebwyr a ddywedodd na fyddai unrhyw un o'r newidiadau a nodwyd yn gwneud gwahaniaeth.





Ffigur 40: Ymatebion i'r arolwg ar newidiadau posibl a fyddai'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddai'r ymatebydd yn aros yn eu hardal leol (neu'n dychwelyd iddi) (n=1056)

Mae pwysigrwydd cymharol y gwahanol fesurau yn weddol gyson ar draws y gwahanol is-grwpiau yn y sampl, ond mae rhai eithriadau lle mae newidiadau unigol naill ai'n debygol o gael effaith sylweddol ehangach ar is-grŵp penodol neu'n cael eu hystyried yn llawer llai pwysig gan is-grŵp penodol, fel y dangosir yn Nhabl 4. Er enghraifft, byddai rhagor o gyfleoedd swyddi priodol yn gallu helpu 69% o ymatebwyr yn gyffredinol i aros yn eu hardal leol, ond mae hyn yn codi i 81% yn Sir Benfro a 82% ym Mhowys; byddai gwell cysylltiadau trafnidiaeth yn gwneud gwahaniaeth i 74% o ymatebwyr ym Mhowys a 71% yn Sir Gaerfyrddin, o'i gymharu â 61% yn gyffredinol; mae swyddi sy'n talu'n well yn enwedig o bwysig i ymatebwyr dros 22 oed, y rhai mewn mathau eraill o hyfforddiant, a'r rheiny yn byw yn Ynys Môn neu Sir Benfro; a byddai rhagor o dai fforddiadwy yn gwneud gwahaniaeth i 50% o ymatebwyr yn gyffredinol, ond 61% yn Sir Benfro. O'r opsiynau a ddewiswyd leiaf, gwell mynediad i ofal iechyd sy'n bwysig i 44% o ymatebwyr ym Mhowys a 43% yn Sir Benfro, o'i gymharu â 30% yn gyffredinol; a mwy o gyfle i astudio neu hyfforddi yn yr ardal leol yn gwneud gwahaniaeth i 46% o ymatebwyr yn Sir Ddinbych a 43% yn Sir Benfro, o'i gymharu â 35% yn gyffredinol.

| | Cyfartaledd | Mwy pwysig | Llai pwysig |
|---|---|---|---|
| Cyfleoedd swyddi priodol | 69% | 19-21 oed (78%)<br>Sir Ddinbych (75%)<br>Sir Benfro (81%)<br>Myfyrwyr mewn AU (82%) | Sir Fynwy (56%) |
| Cysylltiadau trafnidiaeth gwell | 61% | Sir Gaerfyrddin (71%)<br>Powys (74%) | 14-16 oed (53%)<br>Dynion (53%)<br>Conwy (53%)<br>Gwynedd (45%)<br>Mewn hyfforddiant arall (43%)<br>Cymraeg iaith gyntaf (44%) |
| Mwy o gyfleusterau adloniant a hamdden | 60% | Sir Benfro (72%)<br>Powys (70%)<br>Byw mewn tref (68%)<br>Ddim yn siarad Cymraeg (68%)<br>Gwybod rhywfaint o Gymraeg (69%) | Gwynedd (41%)<br>Byw mewn cefn gwlad agored (50%)<br>NEET (49%)<br>Cymraeg iaith gyntaf (40%) |
| Swyddi sy'n talu'n well | 59% | 22-25 oed (67%)<br>Ynys Môn (69%)<br>Sir Benfro (71%)<br>Mewn hyfforddiant arall (71%) | Sir Fynwy (37%) |
| Mwy o dai fforddiadwy | 50% | Sir Benfro (61%) | Ddim yn siarad Cymraeg (42%) |
| Gwell cysylltiadau band eang | 45% | Sir Gaerfyrddin (55%)<br>Byw mewn cefn gwlad agored (52%) | Ceredigion (38%)<br>Gwynedd (29%)<br>Mewn hyfforddiant arall (29%)<br>NEET (35%)<br>Cymraeg iaith gyntaf (36%) |
| Mwy o gyfle i astudio neu hyfforddi yn yr ardal leol | 35% | Sir Ddinbych (46%)<br>Sir Benfro (43%) | Sir Fynwy (23%)<br>Cymraeg iaith gyntaf (26%) |
| Mynediad haws at wasanaethau megis gofal iechyd | 30% | 22-25 oed (39%)<br>Conwy (42%)<br>Sir Benfro (43%)<br>Powys (44%)<br>NEET (40%) | 14-16 oed (21%)<br>Ceredigion (20%)<br>Sir Ddinbych (18%)<br>Sir Fynwy (16%)<br>Byw mewn cefn gwlad agored (21%)<br>Myfyriwr mewn ysgol (24%)<br>Cymraeg iaith gyntaf (18%) |
| Cymorth i ddechrau eu busnes eu hunain | 24% | Sir Gaerfyrddin (34%)<br>Sir Ddinbych (30%)<br>Mewn cyflogaeth (31%) | Sir Fynwy (14%)<br>Mewn hyfforddiant arall (14%) |
| Mwy o gyfle i weithio gartref | 22% | 22-25 oed (33%)<br>Sir Gaerfyrddin (29%)<br>Myfyrwyr mewn AU (28%)<br>Mewn hyfforddiant arall (29%)<br>Ddim yn siarad Cymraeg (28%) | 14-16 oed (16%)<br>Conwy (15%) |
| Cymorth i fynd i ffermio | 10% | 22-25 oed (15%)<br>Byw mewn cefn gwlad agored (14%)<br>Mewn hyfforddiant arall (14%) | Ceredigion (5%)<br>Sir Ddinbych (6%) |
| Dim un o'r uchod | 3% | Sir Gaerfyrddin (8%)<br>Mewn hyfforddiant arall (14%) | Sir Ddinbych (0%) |

Tabl 4: Newidiadau sy'n amlwg yn bwysicach neu'n llai pwysig na'r cyfartaledd ar gyfer is-grwpiau penodol ymhlith ymatebwyr yr arolwg

Yn anad dim, mae cael tai fforddiadwy yn bwysicach i ymatebwyr yn y categori ‘arhoswyr posibl’ nag i’r sampl yn ei gyfanrwydd, gyda 66% yn dweud y byddai mwy o dai fforddiadwy yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn aros yn eu hardal leol, yn ail yn unig i fwy o gyfleoedd swyddi priodol (73%). Mae arhoswyr posibl hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar swyddi sy’n talu’n well (dewiswyd gan 62%) ac ar gymorth i ddechrau eu busnes eu hunain (32%) (Ffigur 42).




Ffigur 41: Newidiadau dewisol ‘arhoswyr posibl’ a fyddai’n ei gwneud yn fwy tebygol y byddai’r ymatebwr yn aros yn eu hardal leol (neu’n dychwelyd iddi) (n=424)

Atgyfnerthir canlyniadau’r arolwg gan adborth o sesiynau grwpiau trafod gyda phobl ifanc yng Ngheredigion, Sir Benfro a Phowys wrth ateb y cwestiwn ‘pa bethau a allai eich helpu i aros i fyw yn eich ardal leol neu i ddychwelyd iddi’, fel y dangosa’r crynodeb naratif a gyflwynwyd gan un gweithiwr ieuenctid (gweler Blwch 1). Soniwyd am dai fforddiadwy gan gyfranogwyr mewn pump o’r saith grŵp a chodwyd mater gwell trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd swyddi gwell (gan gynnwys ‘swyddi rhyngwladol’) mewn mwy nag un grŵp. Efallai yn adlewyrchu proffil oedran ieuengach y cyfranogwyr yn y sesiynau hyn, cafwyd pwyslais cryf hefyd ar gyfleoedd adloniant a hamdden, yn arbennig sinemâu ond hefyd awgrymiadau penodol megis canolfan ieuenctid neu drac rasio – fel y dywedodd un grŵp, “mwy o hwyl”. Soniwyd am gymorth i ddechrau busnes yn y drafodaeth yn Aberhonddu.


Mae *Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig* Fforwm Gwledig y CLlLC yn cynnwys nifer o fesurau arfaethedig sy’n cyfateb i’r blaenoriaethau a nodwyd gan gyfranogwyr yr arolwg ac yn nhrafodaethau’r grwpiau. Mae’r rhain yn cynnwys creu Canolfannau Rhagoriaeth STEMM mewn siroedd gwledig i ddatblygu sgiliau pobl ifanc a chynnig mwy o gyfleoedd i astudio a hyfforddi; cymorth i ehangu cynlluniau prentisiaeth; mentrau i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd a hyrwyddo hunangyflogaeth fel llwybr gyrfa uchelgeisiol; polisïau tai mwy hyblyg i adlewyrchu galwadau gan gymunedau ac anghenion pobl ifanc; archwilio cyfleoedd ar gyfer cynlluniau tai cydweithredol; a thrafnidiaeth gyhoeddus a arweinir gan y galw; yn ogystal â chryfhau ac arallgyfeirio ehangach ar yr economi, gyda phwyslais ar ddiwydiannau sy’n dod i’r amlwg.[9]

[9] *Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig*, Fforwm Gwledig y CLlLC, 2021.

| |
|---|
| **Beth yw rhai o'r pethau a allai eich helpu i aros neu ddychwelyd i fyw yn yr ardal leol?** |
| Un o'r blaenoriaethau iddynt fyddai rhagor o fysiau a oedd yn fwy rheolaidd, felly roedd gwell trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig iddynt ac yn rhywbeth a fyddai'n eu cefnogi i aros yn lleol. Byddai cael gwell cysylltiadau trafnidiaeth yn eu helpu i symud o gwmpas y sir a chael mynediad at fwy o wasanaethau. |
| Trafodwyd hefyd fod angen i dai fod yn fforddiadwy i bobl ifanc er mwyn iddynt gael troed ar yr ysgol eiddo. Rhoddwyd enghraifft lle roedd tŷ yn y pentref lleol ar werth yn ddiweddar ond roedd yn rhy ddrud i bobl ifanc ei fforddio. |
| Roedd gwella cysylltedd digidol yn hanfodol bwysig i un o'r bobl ifanc gan eu bod am ddilyn gyrfa mewn TG. Roeddent yn teimlo y gallai cysylltedd gwael lesteirio eu rhagolygon o ddychwelyd i weithio yn eu bro, gan y byddai'r yrfa o'u dewis yn dibynnu ar gysylltedd digidol da. |
| Teimlent fod mynediad i sinemâu a theatrau hefyd yn eithaf gwael, er bod teithio i Aberystwyth neu Gaerfyrddin yn golygu y gallant gael y gwasanaethau hyn. Teimlent y byddai'n fuddiol pe bai mwy o gyfleoedd iddynt gymdeithasu a mwynhau gweithgareddau fel mynd i'r sinema gyda'u cyfoedion yn lleol. |
| Trafodwyd hefyd fod mynediad i Ofal Iechyd megis meddyg teulu neu ddeintydd hefyd yn eithaf heriol gan 'nad oes digon o gwmpas y lle', gan y byddai angen iddynt deithio i fynd atynt. Credid bod hyn yn anodd nid yn unig iddynt hwy ond hefyd i'w teuluoedd ac i aelodau eu cymuned. |

Blwch 1: Adroddiad cryno gan weithiwr ieuenctid ar sesiwn drafod gyda phobl ifanc yng Ngheredigion

Rhagor o swyddi ar gael sy'n briodol i'w gyrfa arfaethedig oedd yr eitem a ddewiswyd amlaf gan gyfranogwyr yr arolwg fel ffactor a allai eu helpu i aros yn eu hardal leol ond mae'n un o'r rhai anoddaf i'w weithredu oherwydd bod gan bob unigolyn syniad gwahanol o'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol gan adlewyrchu eu dyheadau gyrfa amrywiol. Tynnodd y *Weledigaeth Wledig* sylw at sectorau newydd a rhai sy'n ehangu megis biotechnoleg, technoleg werdd, gwyddor bwyd, amaethyddiaeth ddigidol, a gweithgynhyrchu uwch fel blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi a thwf yng nghefn gwlad Cymru, gyda'r nod o greu swyddi sgiliau uwch yn denu cyflog uwch ar lefel graddedigion. Eto, mae ymatebion yr arolwg yn nodi risg y gallai fod diffyg cyfatebiaeth rhwng y blaenoriaethau strategol hyn ar gyfer datblygu rhanbarthol a diddordebau a dyheadau gyrfa pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, gan greu bwlch a fyddai'n debygol o gael ei lenwi gan fewnfudiad gweithwyr medrus fel y digwyddodd mewn cyfnodau cynharach datblygu rhanbarthol yng Nghymru. Pan ofynnwyd iddynt am eu diddordeb mewn rhestr o ddiwydiannau a sectorau, dim ond 13% o ymatebwyr a fynegodd ddiddordeb gweithio mewn technoleg werdd neu ynni adnewyddadwy, 12% mewn technoleg gwybodaeth neu gyfrifiadura, 8% mewn biotechnoleg, 6% mewn gweithgynhyrchu uwchdechnoleg, 4% mewn marchnata neu brosesu bwyd, a 3% mewn amaethyddiaeth ddigidol (er bod rhai o'r ffigurau hyn wedi'u hystumio gan dangynrychiolaeth dynion yn y sampl – mynegodd 22% o ymatebwyr gwrywaidd ddiddordeb mewn TG a chyfrifiadura, 18% mewn technoleg werdd ac ynni adnewyddadwy, a 12% mewn gweithgynhyrchu uwchdechnoleg) (Ffigur 42). Felly, os yw'r sectorau hyn i fod yn ganolbwynt i strategaethau datblygu economaidd yng nghefn gwlad Cymru, rhaid i fuddsoddiad gyd-fynd ag ymdrechion i hyrwyddo gyrfaoedd yn y meysydd hyn i bobl ifanc leol a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant perthnasol. Mae ymatebion arhoswyr posibl yn agos iawn at rai'r sampl cyfan.




Ffigur 42: Diddordeb ymatebwyr yr arolwg mewn gweithio mewn sectorau dethol (n = 1055)

Y sector mwyaf poblogaidd yw'r diwydiannau creadigol, gyda thraean yr ymatebwyr yn mynegi diddordeb, yn enwedig ymatebwyr hŷn dros 21 oed. Mae 'diwydiannau creadigol' yn gategori eang, gydag enghreifftiau o 'swyddi delfrydol' y soniodd ymatebwyr amdanynt yn cynnwys, er enghraifft, cynhyrchu teledu, cerddoriaeth, newyddiaduriaeth, dylunio gêmau fideo, darlunio, artist, ffilm, dyluniad sain, animeiddio, dylunio graffig, ffotograffiaeth, cyhoeddi, ysgrifennu, ffasiwn, a gwaith crefft. Mae ymchwil mewn rhannau eraill o'r byd wedi dangos bod diwydiannau creadigol yn gallu cynnig ffyrdd i alluogi pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig, o bosibl ar y cyd â gwaith tymhorol neu ran-amser mewn twristiaeth neu hunangyflogaeth mewn mentrau amaethyddol neu fwyd. Cydnabyddir y potensial hwn yn y *Weledigaeth Wledig* gyda chynigion i sefydlu 'canolfannau creadigol' mewn trefnu bychain gwledig, wedi'u modelu ar yr Egin yng Nghaerfyrddin, ond pob un yn canolbwyntio ar sector gwahanol.[10] Efallai fod llwyddiant yr Egin yn esbonio pam mae diddordeb yn y diwydiannau creadigol ar ei uchaf yn Sir Gaerfyrddin, gan fod 45% o gyfranogwyr yr arolwg yn y fan honno wedi mynegi diddordeb.

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys tri phwynt arall o ddiddordeb. Yn gyntaf, ychydig dros un o bob deg o'r ymatebwyr (a 15% o'r ymatebwyr gwryw) a fynegodd ddiddordeb mewn ffermio fel gyrfa. Mae hyn yn uwch na lefel bresennol cyflogaeth amaethyddol yng ngweithlu'r Gymru wledig (7.4%) ac felly yn awgrymu nad yw problem olyniaeth ffermydd yn un o ostyngiad mewn diddordeb i ffermio ymhlith pobl ifanc, ond o baru pobl ifanc sydd â diddordeb â chyfleoedd a rhoi cymorth i newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth. Yn ail, dangosodd dros un pumed yr ymatebwyr ddiddordeb mewn gweithio yn y byd gofal iechyd, gan gynnwys 28% o ymatebwyr benywaidd. Mae'r lefel hon o ddiddordeb yn addawol o ran heriau recriwtio i broffesiynau iechyd yng nghefn gwlad Cymru, yn enwedig fel enghreifftiau o 'swyddi delfrydol' a roddwyd gan ymatebwyr yn cynnwys nyrs, meddyg teulu, bydwraig a pharafeddyg ynghyd â rolau arbenigol eraill, ond mae'n amlygu'r angen am lwybrau hyfforddi priodol. Cymorth i fynd i'r afael â'r angen hwn yw datblygu'r Ysgol Nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Ysgol Feddygol Gogledd


[10] *Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig: Yr Adroddiad Dystiolaeth*, Prifysgol Aberystwyth a CLlLC, 2021

Cymru ym Mhrifysgol Bangor, y cyfeiriwyd atynt yn *Adroddiad Tystiolaeth y Weledigaeth Wledig*. Yn drydydd, gwaith ym maes cadwraeth a rheoli amgylcheddol yw'r trydydd sector mwyaf poblogaidd, gyda 18% o ymatebwyr yr arolwg yn mynegi diddordeb, ac mae'n faes y mae cyfleoedd cyflogaeth yn bodoli yng nghefn gwlad Cymru, ond mae'n sector sy'n aml yn gysylltiedig â chyflog cymharol isel.

Dywedodd bron i chwarter ymatebwyr yr arolwg nad oedd ganddynt ddiddordeb yn unrhyw rai o'r sectorau a restrwyd, gyda gyrfaoedd eraill wedi'u crybwyll sawl gwaith fel 'swyddi delfrydol' yn cynnwys y gyfraith, cyllid, addysgu, polisi, eiddo tiriog, y gwasanaeth sifil, gwyddoniaeth fforensig, a bioleg forol, yn ogystal â chrefftwyr gan gynnwys saer coed, mecanig, trydanwr a weldiwr.

Roedd datblygu'r *Weledigaeth Wledig* wedi cyd-daro â misoedd cyntaf pandemig COVID-19 a chyfranogwyr mewn gweithdai a phrofi senario wedi sôn am effeithiau negyddol a chadarnhaol posibl y pandemig ar y Gymru wledig. Ymysg yr effeithiau cadarnhaol posibl oedd rhagweld y gallai normaleiddio gweithio o bell a gweithio gartref ddileu rhywfaint o'r angen i bobl ifanc symud o gefn gwlad Cymru i gael gwaith cyflogedig, gan roi modd i ragor ohonynt aros yn ardal eu magwraeth neu ddychwelyd yno. Fodd bynnag, amhendant ar y gorau yw'r dystiolaeth am y posibilrwydd hwn yn yr arolwg. Ychydig dros un pumed yn unig o ymatebwyr yr arolwg a ddywedodd y byddai mwy o gyfleoedd i weithio o gartref yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn aros yn ardal eu mebyd neu'n dychwelyd yno, gan gynnwys traean o ymatebwyr 22 oed neu drosodd, 28% o'r rheiny mewn addysg uwch, 28% o'r rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg, a 29% o ymatebwyr yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol am yr amgylchedd gweithio o'u dewis, dim ond 9% o ymatebwyr ddywedodd y byddai'n well ganddynt yn ddelfrydol weithio gartref i gwmni neu sefydliad mawr (Ffigur 43). Yr opsiwn mwyaf poblogaidd o hyd yw gweithio i gwmni neu sefydliad mawr mewn swyddfa neu weithle arall, fel y dewiswyd gan chwarter yr ymatebwyr, wedi'i ddilyn gan fod yn hunangyflogedig, a gweithio i fusnes bach. Yn ddiddorol, dengys y canlyniadau raniad clir ar sail rhyw, gyda bron i draean y dynion ifanc yn dweud y byddai'n well ganddynt fod yn hunangyflogedig neu redeg eu busnes eu hunain, o'i gymharu â dim ond 17% o fenywod ifanc. Mae lefel y diddordeb mewn hunangyflogaeth yn dangos arwyddocâd posibl cynlluniau i annog a chefnogi entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc, fel y nodwyd yn y *Weledigaeth Wledig*, megis menter Llwyddo'n Lleol 2050 yn y gogledd-orllewin.[11]

[11] *Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig: Yr Adroddiad Dystiolaeth*, Prifysgol Aberystwyth a CLlLC, 2021




Ffigur 43: Ymatebion yn yr arolwg i'r datganiad, 'Yn eich prif yrfa a fyddai'n well gennych...' (n=1056)

## Casgliadau

Mae canlyniadau'r arolwg yn atgyfnerthu canfyddiadau ymchwil cynharach sy'n dangos tensiwn rhwng agweddau cadarnhaol cyffredinol pobl ifanc tuag at fyw yng nghefn gwlad Cymru, ynghyd ag ymdeimlad cryf o ymlyniad at le i lawer, ac anfodlonrwydd eang ag agweddau penodol ar ddarpariaeth gwasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad i dai. Fel astudiaethau blaenorol, canfu fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn ystyried y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol er mwyn dod o hyd i swyddi priodol ac/neu dŷ addas, fforddiadwy, a hynny mewn llawer o achosion yn groes i ddymuniad i fod eisiau parhau i fyw yn ardal eu cartref.

Mae maint sampl mawr yr arolwg, gyda dros fil o ymatebwyr, yn ein galluogi i symud y tu hwnt i astudiaethau blaenorol drwy dwrio i'r manylion, dadgyfuno tueddiadau mwy o faint a chreu darlun cynilach. Gall eu rhyw, eu hoedran, statws addysg neu gyflogaeth, gallu yn y Gymraeg, a ble y mae pobl ifanc yn byw, oll wneud gwahaniaeth i'w barn ynghylch bywyd yng nghefn gwlad Cymru a'u bwriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae gwahaniaethau daearyddol, er enghraifft, yn y farn am wasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol, pryderon ynghylch tai a chyflogaeth, a gobeithion pobl ifanc i symud yn ôl i'r ardal yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn symud i ffwrdd. Mae pryderon am dai fforddiadwy, er enghraifft, yn sylweddol uwch ymysg pobl ifanc yn Sir Benfro nag ym Mhowys; tra bod y gred y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i gael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn fwy cyffredin ymysg pobl ifanc yn siroedd deheuol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy nag yn y Canolbarth neu'r Gogledd. Mae pobl ifanc y De a'r Gogledd hefyd yn edrych i gyfeiriadau gwahanol pan ddaw'n fater o symud o gefn gwlad Cymru. Tuedda pobl ifanc yn y Gogledd i edrych tuag at ddinasoedd yng ngogledd-orllewin Lloegr, ac felly bod symud allan o'u hardal wledig i bob pwrpas yn golygu gadael Cymru. Mae pobl ifanc yn y De yn fwy tebygol o symud i Gaerdydd neu Abertawe, ond mae yna hefyd atyniadau cryf i Fryste, Llundain a rhannau o Ganolbarth Lloegr.

I grŵp sylweddol o bobl ifanc, mae byw yng nghefn gwlad Cymru yn gysylltiedig iawn â hunaniaeth Gymraeg a'r iaith ei hun, gan adlewyrchu pryderon mewn dadleuon ehangach bod allfudo ymysg pobl ifanc yn niweidiol i gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith bob dydd yn y cymunedau. Mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol na'r bobl ifanc yn eu cyfanrwydd ynghylch bywyd yn eu hardal wledig, yn enwedig ynghylch gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol, ac yn fwy tebygol o fod eisiau parhau i fyw yn eu hardal leol neu ddychwelyd petaent yn symud oddi yno. Serch hynny, cred y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol i gael gwaith cyflogedig, addysg, neu rywle i fyw, gyda thraean ohonynt yn rhagweld y byddant yn symud tu allan i Gymru yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae gwahaniaethau amlwg ym marn a disgwyliadau siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n ail iaith, yn enwedig mewn perthynas â chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol a chyfleoedd cyflogaeth, sy'n awgrymu bod hunaniaeth ddiwylliannol a bod yn rhan o gymuned Gymraeg ei hiaith drwy gysylltiadau teuluol yn bwysicach wrth lunio rhagolygon na

gallu yn yr iaith per se. Roedd yr 14% o bobl ifanc yn sampl yr arolwg nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl hefyd wedi ffurfio grŵp penodol, gan dueddu i fod yn fwy anfodlon â chyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol a chyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru na'r bobl ifanc eraill ac yn llawer llai awyddus i ddychwelyd i'w hardal leol os ydynt yn symud oddi yno.

Mae barn pobl ifanc hefyd yn amrywio yn ôl grŵp oedran, gan esblygu wrth i bobl ifanc fynd yn eu blaenau drwy addysg ac i gyflogaeth. Tuedda ymatebwyr ieuengaf, rhwng 14 ac 18 oed, i fynegi anfodlonrwydd cyffredinol gydag agweddau ar fywyd gwledig yn ogystal ag awydd am brofiadau ehangach, ond mae eu pryderon ynghylch tai a chyflogaeth yn tueddu i fod yn llai taer ac wedi'u mynegi'n llai pendant ganddynt. Mae mwy o bwyslais ar ddimensiynau cymdeithasol, megis mynediad i adloniant a siopau, trafnidiaeth gyhoeddus, ac anhawster cwrdd â ffrindiau, fel y cofnodwyd yn y sesiynau trafod gyda grwpiau o bobl ifanc yng Ngheredigion, Sir Benfro, a Phowys.

I lawer o bobl ifanc, mae penderfyniadau ynghylch aros neu adael bro eu mebyd yn gysylltiedig agos â phenderfyniadau ynghylch addysg uwch. Er bod Aberystwyth a Bangor ymysg y prifysgolion mwyaf poblogaidd a ddewisir gan bobl ifanc cefn gwlad Cymru, mae'r rhan fwyaf yn ystyried mynd i brifysgol fel cyfle i gael profiad gwahanol, sy'n aml yn drefol, gyda llawer yn dewis prifysgolion y tu allan i Gymru. Gall y penderfyniad hwn drosi'n symud tymor hir, wrth i bobl ifanc ddewis aros yn Lloegr, neu mewn dinasoedd yn ne Cymru, ar ôl graddio, oherwydd cyfleoedd swyddi neu oherwydd y cysylltiadau cymdeithasol y maent wedi'u gwneud yno. Mae myfyrwyr cyfredol AU ymysg y grwpiau mwyaf beirniadol am y cyfleoedd cyflogaeth yn ardal eu cartref, gyda hyd yn oed y rhai y byddai'n well ganddynt ddychwelyd adref ar ôl graddio yn credu y bydd angen iddynt symud i ffwrdd er mwyn dod o hyd i swyddi priodol ar lefel graddedigion yn eu maes.

Mae penderfyniadau ynghylch AU hefyd yn dangos hollt rhwng y bobl ifanc hynny sy'n mynd i brifysgol a'r rheiny sy'n mynd i gyflogaeth neu ryw fath arall o hyfforddiant. Eglurodd cryn nifer o ymatebwyr a fwriadai barhau i fyw yn eu hardal leol eu bod yn gwneud hynny am eu bod wedi dod o hyd i swydd y maent yn ei hoffi yno neu eu bod mewn hyfforddiant galwedigaethol a allai eu galluogi i aros. Eto, mae fforddiadwyedd tai yn bryder allweddol i'r grŵp hwn, o bosibl am eu bod yn rhagweld enillion is, ac mae cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal leol yn dal yn bryder i lawer ohonynt, yn enwedig y rheiny mewn hyfforddiant galwedigaethol. Mynegodd llawer ohonynt ddisgwyliadau y byddai angen iddynt symud o fewn cefn gwlad Cymru i ddod o hyd i waith addas neu rywle i fyw.

Mae barn grŵp hynaf ymatebwyr yr arolwg, sef rhai rhwng 22 a 25 oed ac yn cynnwys graddedigion sydd wedi dychwelyd i ardal eu cartref ar ôl astudio, wedi'i ffurfio gan eu penderfyniadau ymwybodol i aros ym mro eu mebyd neu i ddychwelyd yno. O'r herwydd, tueddant i fod ymysg y rhai mwyaf positif ynghylch byw yng nghefn gwlad Cymru, ac ymysg yr arhoswyr mwyaf ymrwymedig, ond dyma hefyd yw'r grŵp sydd mwyaf anfodlon â gwasanaethau cyhoeddus – efallai oherwydd cymharu ag ardaloedd trefol lle maent wedi byw ynddynt, neu am eu bod wedi dechrau meddwl am fagu teulu. Dyma'r grŵp oedran hefyd sy'n pryderu fwyaf

ynghylch gallu fforddio prynu tŷ yn yr ardal, ac er bod y mwyafrif mewn cyflogaeth mae llawer ohonynt yn dal i feddwl y bydd angen iddynt symud i ffwrdd er mwyn datblygu eu dewis yrfa.

Mae dadansoddi data'r arolwg yn rhoi modd categoreiddio pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn dri grŵp yn ôl eu gobeithion, pryderon a disgwyliadau ynghylch mudo. Y grŵp cyntaf yw **'arhoswyr tebygol'**, a fyddai naill ai'n well ganddynt barhau i fyw yn eu hardal leol drwy gydol eu bywyd neu'n niwtral ynghylch gwneud hynny a hefyd nid ydynt yn meddwl y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i gael gwaith cyflogedig, addysg neu rywle i fyw. Mae'r rhain yn ffurfio tua un o bob deg o'r bobl ifanc a lenwodd yr holiadur. O'i gymharu ag ymatebwyr yr holl arolwg gyda'i gilydd, mae'r grŵp hwn yn anghymesur o ran nifer y dynion sydd ynddo yn ogystal â bod tua dwywaith yn fwy tebygol o fod yn gweithio ar hyn o bryd yn hytrach nag mewn addysg

Gellir galw'r ail grŵp yn **'ymadawyr awyddus'**, sydd eisiau gadael eu hardal leol, o leiaf am gyfnod, gyda dau o bob tri ohonynt yn ffafrio byw mewn tref fawr neu ddinas. Mae tua hanner y bobl ifanc a lenwodd yr arolwg yn y grŵp hwn. Mae myfyrwyr mewn ysgolion, yn y chweched dosbarth neu mewn coleg wedi'u gorgynrychioli yn y grŵp hwn, a siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf wedi'u tangynrychioli. Mae tua thraean y grŵp hwn eisiau gadael eu hardal leol yn barhaol, ond mae'r rhan fwyaf yn barod i symud yn ôl yn ddiweddarach yn eu bywyd, gan gynnwys tua thraean a oedd wedi mynegi dyhead i wneud hynny.

Y trydydd grŵp yw **'arhoswyr posibl'**, a gellid dadlau mai dyma'r grŵp allweddol ar gyfer lleihau allfudo ymhlith pobl ifanc o gefn gwlad Cymru. Mae'r rhain yn bobl ifanc y byddai'n well ganddynt barhau i fyw yn eu hardal leol, neu eu bod yn niwtral ynghylch aros, ond yn credu y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i gael cyflogaeth, addysg ac/neu rywle i fyw. Mae mwy na dau o bob pump o'r ymatebwyr yn y categori hwn, gyda siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ymatebwyr sydd mewn gwaith ar hyn o bryd wedi'u gorgynrychioli. Mae rhai o'r grŵp hwn yn rhagweld y byddant yn gallu aros yn eu hardal leol yn y tymor byr, gyda bron i draean yn rhagweld na fyddant yn symud yn ystod y pum mlynedd nesaf, ond mae'r rhan fwyaf o'r farn y byddant yn gadael yn y cyfnod hwn. Mae bron pob un ohonynt yn gobeithio dychwelyd i'w hardal leol yn ddiweddarach yn eu bywyd petaent yn symud oddi yno.

Mae grŵp sylweddol yr arhoswyr posibl yn awgrymu bod nifer sylweddol o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru a fyddai'n ymateb i ymyriadau polisi i geisio atal allfudo. Mentrau sydd â'r nod o gael rhagor o dai fforddiadwy ar gael, gwella lefelau cyflog, ac ehangu'r ystod o swyddi sydd ar gael yng nghefn gwlad Cymru sy'n fwyaf tebygol o gael effaith o ran galluogi'r grŵp hwn o arhoswyr posibl i aros, gydag ymdrechion i wella cyfleusterau adloniant a hamdden a gwella cysylltiadau trafnidiaeth â threfi a dinasoedd yn debygol o wneud gwahaniaeth i bobl ifanc yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r arolwg hefyd yn cyfeirio at heriau wrth gysoni blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd mewn meysydd megis technoleg werdd, biotechnoleg, a gweithgynhyrchu uwchdechnoleg gyda dyheadau gyrfa pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, ac felly bod angen sicrhau bod buddsoddi strategol yn y meysydd hyn yn cyd-fynd â hyrwyddo'r sectorau hyn mewn ysgolion a cholegau i godi diddordeb a darparu hyfforddiant priodol yn lleol. Gallai strategaethau i gefnogi diwydiannau creadigol a chryfhau cyfleoedd hyfforddi mewn gofal iechyd hefyd helpu i gadw pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru. Er gwaethaf

rhai disgwyliadau, nid yw ehangu gweithio o bell a gweithio gartref ar ôl y pandemig ynddo’i hun yn debygol o arwain at ragor o bobl ifanc yn dewis aros mewn ardaloedd gwledig, fodd bynnag mae’r arolwg hwn wedi datgelu diddordeb sylweddol mewn hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth, yn enwedig ymysg dynion ifanc, a gallai hynny greu cyfleoedd o gael ei feithrin drwy fentrau strategol.

Ysgrifennwyd gan Michael Woods a Patrick Utz

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/WISERD@Aberystwyth

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Prifysgol Aberystwyth

Aberystwyth

SY23 3DB

https://cwps.aber.ac.uk/cy/

https://www.aber.ac.uk/cy/dges/

Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Chwefror 2022

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn fel rhan o Labordy Byw Cymru ym mhrosiect ROBUST

www.rural-urban.eu

Mae ROBUST yn derbyn cyllid gan raglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd o dan ddiwygiad grant rhif 727988.

Barn yr awdur yn unig a geir yn y ddogfen hon. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd y gellir ei wneud o'r wybodaeth sydd ynddi.

© Michael Woods 2022

Am fanylion pellach ynglŷn â'r adroddiad hwn, cysylltwch â:

Prof Michael Woods,
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
SY23 3DB
www.aber.ac.uk/dges
Twitter: @AU_DGES
Ebost: m.woods@aber.ac.uk

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ROBUST

CLILC • WLGA

Mae ROBUST yn derbyn cyllid gan Rhaglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd o dan cytundeb grant Rhif 727988.